# Dogfen Ymgynghori ar y Papur Gwyn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg
## Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

### 1.Cyflwyniad

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn fudiad sydd wedi bod yn ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru ers dros hanner canrif.

1.2. Cyn cyhoeddi papur gwyn y Llywodraeth, ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Cymdeithas bapur trafod ynghylch cryfhau'r ddeddfwriaeth iaith bresennol "Cryfhau Hawliau i'r Gymraeg - Dogfen Ymgynghorol ynghylch Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011"[1] sydd wedi'i atodi i'r ymateb hwn.

1.3. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda mudiadau a grwpiau diddordeb eraill gan gynnwys pedwar cyfarfod cyhoeddus i drafod ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth iaith newydd.

1.4. Mae llai na dwy flynedd ers i gyfundrefn y Safonau, a reolir gan Gomisiynydd y Gymraeg, fod mewn grym. Croesawn gyhoeddiad y dystiolaeth gyntaf sy'n ymdrin ag effaith y Safonau ar ddefnydd y Gymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017 yn adroddiad sicrwydd 2016-17 y Comisiynydd "Hawliau'n Gwreiddio"[2]. Yn yr adroddiad, drwy gymharu ystadegau blwyddyn gyflawn dan y gyfundrefn Safonau a'r flwyddyn cyn iddynt ddod i rym, amlygir nifer o ddatblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- Mae 76% o siaradwyr Cymraeg o’r farn bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella, a dim ond 10% yn anghytuno â hynny
- Mae 57% yn credu bod cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio’r Gymraeg
- Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer 25% o'r swyddi a hysbysebwyd – o gymharu â 16% yn 2015-16 – sy'n gynnydd o 56%
- Yn y sector iechyd (nad yw'n rhan o'r gyfundrefn Safonau eto) roedd canran y swyddi a hysbysebwyd lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol wedi aros yn ei hunfan (rhwng 2015-16 a 2016-17), a hynny ar ddim ond 1% o swyddi
- Gwelwyd cynnydd, o 50% yn 2015-16, i 96% yn 2016-17, yn nifer y gwasanaethau ffôn lle cynigir dewis iaith yn ddiofyn
- Gwelwyd cynnydd, o 32% yn 2015-16, i 45% yn 2016-17, yn nifer y cynghorau sy'n cynnig pob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg

[1] http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/CyIG%20Cryfhau%20Mesur%20A4(1).pdf

[2] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20170926%20DG%20Adroddiad%20Sicrwydd%20terfynol%20Cymraeg.pdf

1.5. Nodwn gyda chryn syndod absenoldeb unrhyw dystiolaeth ryngwladol na domestig gadarn ym mhapur gwyn y Llywodraeth. Nodwn yn enwedig absenoldeb unrhyw dystiolaeth ynghylch profiad pobl o geisio defnyddio gwasanaethau Cymraeg a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu, er bod tystiolaeth ar gael megis Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru ac adroddiad Cyngor ar Bopeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg.

1.6. Nodwn ymhellach, a chyda chryn bryder, awgrym diweddar Gweinidog y bydd oedi pellach cyn pasio Safonau mewn sectorau eraill nes bod Bil y Gymraeg wedi ei basio[3], er gwaetha'r dystiolaeth uchod am effaith gadarnhaol y Safonau ar ymddygiad cyrff.

## 2. Crynodeb

2.1. Gallwn ni grynhoi ein safbwynt ar y Bil fel a ganlyn:

- Dylai Llywodraeth Cymru ollwng cynigion y papur gwyn a dechrau eto gan eu bod wedi gwrando ar gyrff a busnesau ar draul hawliau cefnogwyr a defnyddwyr y Gymraeg.
- Bod cynigion y papur gwyn mor bell o ddeddfwriaeth gall a fyddai'n amddiffyn ac ymestyn hawliau i'r Gymraeg y byddai'n well peidio â deddfu o gwbl na phasio cynigion o'r fath, a bwrw ati i wneud y gwaith y gellir ei wneud, ond sydd heb ei wneud, o dan y Mesur presennol.
- Dylid estyn y Safonau i weddill y sector preifat drwy enwi sectorau ar wyneb y Mesur, gan ddechrau'n syth gydag archfarchnadoedd, banciau, cyrff y goron, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol, gydag amserlen, a hawl i gynnwys rhagor o sectorau drwy is-ddeddfwriaeth. Os yw safbwynt y Llywodraeth bresennol yn parhau i fod fel y'i hamlinellir yn y Papur Gwyn, sef nad ydynt o blaid ymestyn Safonau i weddill y sector preifat, byddai'n fwy llesol gweithredu'r Mesur presennol yn llawn yn hytrach na deddfu o'r newydd.
- Dylid cadw Comisiynydd y Gymraeg fel corff rheoleiddio ar wahân gan ei fod yn fodel a ddefnyddir yn rhyngwladol a bod yna Gomisiynwyr Plant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol. Byddai sefydlu Comisiwn yn lle Comisiynydd y Gymraeg yn gam mawr yn ôl ac yn gyfystyr ag ail-sefydlu Bwrdd yr Iaith – cyfundrefn a ddiddymwyd yn 2012 oherwydd ei methiannau.
- Mae angen hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y ddeddfwriaeth, i gyd-fynd â'r Safonau, er eglurder i'r cyhoedd ac er mwyn llywio'r Safonau i sicrhau eu bod yn esblygu ac yn gwella ac er mwyn llenwi'r mannau gwan ynddynt.

2.2. Credwn y byddai'r papur gwyn yn cael yr effaith ganlynol ar y gyfundrefn bresennol:

- Byddai'n troi'r cloc yn ôl drwy ail-sefydlu nifer o elfennau aflwyddiannus cyfundrefn Deddf Iaith 1993
- Byddai'n gwanhau hawliau ac yn lleihau grym y defnyddiwr:
    - gan y byddai'n rhaid cwyno wrth gyrff unigol ac na fyddai modd mynd yn syth at y Comisiynydd;

[3] "Rydw i'n bwriadu gosod rheolau iechyd cyn diwedd y flwyddyn, ond, os oes cefnogaeth i'r cynigion yn y Papur Gwyn, bydd yn rhaid i ni gymryd hynny i mewn i ystyriaeth cyn gwneud mwy o reoliadau." - Alun Davies AC, Cofnod y Trafodion, 3ydd Hydref 2017
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4646&language=cy&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#C496037

  - gan mai dim ond ynghylch cwynion 'difrifol' y byddai modd cynnal ymchwiliadau;
  - gan y byddai'n rhoi’r grym i osod Safonau ar gyrff i’r Llywodraeth yn lle’r Comisiynydd
  - gan y byddai'n gwanhau rheoleiddio wrth gyfuno swyddogaethau rheoleiddio a hyrwyddo o fewn un corff a fydd yn gorfod aberthu ei waith rheoleiddio er mwyn canolbwyntio a llwyddo yn ei waith hybu a hyrwyddo
- Byddai'n cymhlethu'r system drwy ychwanegu haen ychwanegol, ond ddi-rym, o 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol', ar ben y Safonau a'r cynlluniau iaith (sy'n dal i fod yn weithredol mewn rhai sefydliadau).
- Byddai'n ei gwneud yn llai tebygol y bydd mwy o’r sector breifat yn gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg gan na fyddai amserlen i osod Safonau ar restr benodol o gyrff ac oherwydd mai'r Llywodraeth, ac nid y Comisiynydd, fyddai'n gyfrifol am gychwyn y broses o ddod â mwy o sectorau o dan ddyletswyddau iaith
- Byddai'n blaenoriaethu buddiannau cyrff yn lle defnyddwyr, er enghraifft mae'r Papur Gwyn yn argymell y dylai fod 'siop un stop' er hwylustod i gyrff, ond byddai'r cynigion yn gorfodi defnyddwyr i gwyno wrth gannoedd o gyrff unigol am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg.
- Byddai'n canoli grym yn nwylo Llywodraeth Cymru gan mai nhw fyddai'n rheoli'n llwyr pwy sy'n dod o dan ddyletswydd iaith, pa rai, dan ba amodau ac erbyn pryd. Y Llywodraeth hefyd fyddai'n penodi prif swyddogion y cyrff fyddai'n rheoleiddio a hybu hawliau i'r Gymraeg

2.3 Rydyn ni'n credu bod gwallau dadansoddol sylfaenol yn y ddogfen:

- Mae'n brin iawn o dystiolaeth ryngwladol a chenedlaethol gymharol sy'n cyfiawnhau'r cynigion:
  - Mae'r cynigion yn seiliedig ar brofiad dim ond "naw mis ar ôl i'r Safonau cyntaf ddod i rym” (para 209, tud. 52)
  - Nid oes esboniad pam y byddai'r Llywodraeth yn gwyro oddi ar y model Comisiynydd a sefydlwyd yng Nghymru ar gyfer Plant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'r Gymraeg.
  - Nid oes rhesymeg na thystiolaeth gymharol ryngwladol na domestig yn y Papur Gwyn sy'n ceisio cyfiawnhau pam y dylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg wedi pum mlynedd o fodolaeth y swyddogaeth.
  - Nid yw'n cyfeirio at dystiolaeth adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg sy'n amlygu nifer o welliannau sy'n ganlyniad i waith y Comisiynydd ar reoleiddio Safonau'r Gymraeg
- Mae'n anwybyddu profiad ugain mlynedd o Fwrdd yr Iaith gan ddangos anwybodaeth lwyr o fethiannau trefn Deddf Iaith 1993: nid oes sôn yn y papur am fethiannau'r gyfundrefn flaenorol na pham y'i diddymwyd.
- Mae'n canolbwyntio ar newidiadau biwrocrataidd yn lle cynigion i gryfhau ac ymestyn hawliau pobl gyffredin i'r iaith.

- Mae'n gwneud defnydd camarweiniol iawn o ystadegau:
    - drwy ddatgan bod defnydd o wasanaethau Cymraeg y DVLA yn isel, heb gydnabod nad yw'r corff yn dod o dan y Safonau eto;
    - drwy honni bod defnydd isel o wefan Gymraeg Cyngor Abertawe, er bod nifer yr ymweliadau â'r wefan ym mis Mehefin 2017 ar ei uchaf erioed (bron dair gwaith yn fwy (2.2%) nag ym mis Hydref 2014 (0.84%) ac yn gyson yn uwch ers i'r Safonau ddod i rym);
    - drwy ddyfynnu Cyngor Wrecsam bod "0.5% o'r galwadau i'r ganolfan gyswllt a'r ymweliadau â'r ganolfan yn Gymraeg", ond heb gydnabod bod hynny chwe gwaith yn uwch na'r lefelau cyn i'r Safonau ddod i rym.

2.4 Mae ein safbwynt cryno ar brif gynigion y papur gwyn fel a ganlyn:

| **Maes y Cynigion** | Cynnig y Llywodraeth | Barn Cymdeithas yr Iaith | Cynigion Amgen Cymdeithas yr Iaith |
|---|---|---|---|
| **Rheoleiddiwr** | Diddymu Comisiynydd y Gymraeg, a sefydlu Comisiwn y Gymraeg sy'n cyfuno cyfrifoldebau am reoleiddio a hybu'r Gymraeg<br>[para 77-80, tud 21-22 y papur gwyn] | Anghytunwn gyda chynnig y Llywodraeth i ddiddymu Comisiynydd y Gymraeg gan y byddai'n troi'r cloc yn ôl, gan ail-greu Bwrdd yr Iaith, corff a fethodd ag amddiffyn hawliau pobl i'r Gymraeg.<br><br>Byddai cyfuno dyletswyddau rheoleiddio a hybu o fewn yr un corff hefyd yn gam mawr yn ôl: byddai'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd rheoleiddio effeithiol a chadarn, gyda'r corff yn gorfod blaenoriaethu un swyddogaeth dros y llall a chyda thyndra mewnol rhwng hybu a chosbi cyrff i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Mae angen cadw Comisiynydd y Gymraeg gan ei fod yn unigolyn atebol sy'n eiriolwr dros y Gymraeg a'i siaradwyr ac yn cynnig 'stop un siop' i bobl ar lawr gwlad.<br><br>Mae model y Comisiynydd Iaith yn ffordd gydnabyddedig o reoleiddio hawliau i ieithoedd lleiafrifedig yn rhyngwladol. Nid oes tystiolaeth ryngwladol nac empirig o Gymru yn y papur gwyn i gyfiawnhau dileu'r Comisiynydd a chreu Comisiwn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynyddu nifer y Comisiynwyr mewn meysydd polisi eraill (Mae pedwar Comisiynydd - Comisiynydd Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol). Sefydlwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mor ddiweddar â mis Ebrill 2016. | Dylid cadw Comisiynydd y Gymraeg a chryfhau ei hannibyniaeth a'i phwerau drwy ei phenodi a'i hariannu drwy'r Cynulliad, yn hytrach na'r Llywodraeth.<br><br>Dylid sefydlu corff annibynnol ar wahân i hybu'r Gymraeg.<br>Manylion llawn ein cynigion yma: http://cymdeithas.cymru/dogfen/cyngor-y-gymraeg-corff-annibynnol-i-hyrwyddor-gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Safonau a Hawliau** | Dileu pob categori o Safonau'r Gymraeg heblaw am y rhai ar gyfer derbyn gwasanaethau.<br>[para 151-153, tud 40 y papur gwyn] | Anghytunwn gyda chynnig y Llywodraeth i ddiddymu rhai categorïau o Safonau gan fod adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg ar flwyddyn gyntaf gweithredu'r Safonau yn dangos bod y Safonau, o bob categori, yn cael effaith gadarnhaol, gan gynnwys:<br><br>• 76% o'r farn bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella, a dim ond 10% yn anghytuno â hynny<br>• 57% yn credu bod cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer chwarter y swyddi a hysbysebwyd – o gymharu â 16% yn 2015-16 – sy'n gynnydd o 56%.<br><br>Nid yw'r papur gwyn yn darparu tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau diddymu categorïau o Safonau, sydd, yn ôl adroddiad sicrwydd y Comisiynydd, wedi gwella darpariaeth.<br><br>Credwn fod angen gallu gosod pob math o Safonau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu, sy'n faes lle mae angen mwy o reoleiddio cadarn. | Credwn y dylid cadw'r Safonau. Er mwyn adeiladu ar y Safonau, dylid sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y Mesur er mwyn llywio'r Safonau, llenwi mannau gwan a chaniatáu iddynt ddatblygu dros amser.<br><br>Dylid newid y Mesur fel bod modd gosod pob categori o Safonau ar gyrff yn y sector breifat. |
| | Sefydlu system ychwanegol newydd o 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol' yn lle Safonau llunio polisi a rhai hawliau gweithwyr.<br>[para 171-184, tud. 44-47 y papur gwyn] | Anghytunwn gyda'r cynnig gan y byddai'n creu haen arall o reoliadau gan achosi rhagor o gymhlethdod ac aneglurder.<br><br>Ar ben hynny, mae'n gwbl annerbyniol y byddai'r cynigion yn lleihau grym y Comisiynydd i sicrhau cydymffurfiaeth drwy ddiddymu'r pwerau cosbi sydd ar gael iddo. Effaith y cynnig felly yw lleihau rheoleiddio a fydd yn arwain at lai o gydymffurfiaeth â'r gyfraith ac, o ganlyniad, at lai o ddefnydd o'r Gymraeg. | Yn lle diddymu'r Safonau Gweithredu a Llunio Polisi a chreu haen ychwanegol o reoliadau di-rym yn eu lle, gallai fod dyletswyddau ychwanegol ar wyneb y Bil, megis dyletswyddau i symud at weinyddiaeth fewnol Gymraeg fel sy'n bodoli yng Nghatalonia a Gwlad y Basg. |
| | Yn lle'r Comisiynydd, Llywodraeth Cymru fyddai'n | Anghytunwn yn gryf gyda'r cynigion hyn am nifer o resymau. | Dylai'r Comisiynydd barhau i fod yn gyfrifol am osod Safonau, ac ni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer.<br><br>[para 186-196, tud. 48-49 y papur gwyn] | Yn gyntaf, nid oes gan y gwasanaeth sifil mo'r arbenigedd i allu cynnal y broses greu a gosod y Safonau'n iawn. Un o'r rhesymau pam fod gwallau, oedi a phroblemau gyda'r Safonau yw oherwydd diffyg capasiti ac arbenigedd o fewn y Llywodraeth i'w symud ymlaen. Nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl felly rhoi mwy o reolaeth iddynt dros y broses.<br><br>Gan ystyried polisi'r Llywodraeth bresennol, byddai'r cynigion hefyd yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd y sector breifat yn gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg, gan y bydd cynnwys rhagor o sectorau yn llwyr ddibynnol ar ewyllys Gweinidog y dydd.<br><br>Yn ogystal, mae'n fwy tebygol y bydd y Safonau'n wannach gan mai'r Llywodraeth fyddai'n gyfrifol am osod hysbysiadau cydymffurfio ar gyrff. Mae gan y Comisiynydd brif nod statudol o sicrhau bod pobl yn cael byw drwy'r Gymraeg, nid yw'r fath ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru wrth ddewis cynnwys cyrff dan y dyletswyddau ai peidio. | ddylid rhoi'r cyfrifoldeb i'r Llywodraeth.<br><br>Y Comisiynydd ddylai fod yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. |
| | Diddymu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gosod 'dyletswydd cynllunio ieithyddol' yn lle [para 182, tud 46 y papur gwyn]<br><br>Fyddai yna ddim pwerau gorfodi o gwbl ynghlwm â'r 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol': | Anghytunwn gyda'r cynigion. Er bod gwendidau gyda chyfundrefn bresennol Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ni chredwn y byddai cynllunio normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn gwella wrth symud i system arall heb bwerau cosbi na gorfodi yn gysylltiedig â nhw.<br><br>Credwn fod lle i ddadlau y byddai rhoi grymoedd rheoleiddio i Gomisiynydd y Gymraeg dros y maes addysg yn llesol gan y byddai'n annibynnol. Fodd bynnag, mae cynigion y papur gwyn yn lleihau'r pwerau gorfodi o gymharu â'r sefyllfa bresennol, er | Yn lle creu haen ychwanegol o reoliadau di-rym, dylai'r hawl i addysg a gofal plant Cymraeg fod yn un o'r hawliau ar wyneb y ddeddfwriaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *"Er y dylai fod yn ofynnol i gorff gydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio ieithyddol statudol, rydym o'r farn ei bod yn bwysicach monitro a chefnogi cyrff i ddatblygu'r gallu sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol na'u gorfodi i gydymffurfio."*<br>[para 183, tud 47 y papur gwyn] | enghraifft, byddai grym Gweinidog i wrthod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg nad ydynt yn foddhaol yn diflannu. Byddai gwanhau'r pwerau rheoleiddio yn y fath fodd yn debygol o wneud y sefyllfa hyd yn oed yn waeth nag ydyw ar hyn o bryd. | |
| **Cyfundrefn Gwyno** | Ni fyddai modd cwyno'n uniongyrchol wrth y Comisiynydd, byddai'n ofynnol i'r cyhoedd gwyno wrth gyrff unigol fel dan hen system y cynlluniau iaith.<br><br>[para 213, tud. 53 y papur gwyn]<br><br>Dim ond mewn achosion 'difrifol' y byddai ymchwiliad i gŵyn gan y Comisiynydd yn gallu arwain at y posibiliad o gamau gorfodi sylweddol.<br><br>[para 218-222, tud. 55 y | Anghytunwn yn gryf gyda'r cynigion gan y bydden nhw i gyd yn lleihau grym siaradwyr Cymraeg o gymharu â chyrff ac yn arwain at lai o gydymffurfiaeth â'r gyfraith. Yn wir, mae'n ymosodiad ar rym pobl er lles sefydliadau.<br><br>Anghytunwn yn gryf gyda chyfyngu ymchwiliadau i achosion 'difrifol' yn unig a fyddai'n troi'r cloc yn ôl i'r hen gyfundrefn cynlluniau iaith a fethodd ag amddiffyn hawliau pobl.<br><br>Fel yn achos cyfundrefn Deddf Iaith 1993, bydd y cynigion yn arwain at fwy o dorri'r gyfraith gan gyrff achos bydd llai o rym gan Gomisiynydd y Gymraeg i ddefnyddio camau gorfodi.<br><br>Yn aml, mae achosion nad ystyrir nhw'n rhai difrifol yn arwydd o ddiffyg cydymffurfiaeth yn fwy cyffredinol.<br><br>Os yw rhywun wedi cwyno am rywbeth, mae'n amlwg yn fater difrifol iddyn nhw. Dadleuwn na ddylai fod disgresiwn ynghylch ai cynnal ymchwiliad ai peidio, ond parhau gyda disgresiwn y Comisiynydd ar ddiwedd yr ymchwiliad o ran defnyddio'r ystod o bwerau gorfodi sydd ganddo. | Credwn y dylai fod rhagor o bwerau cosbi gan Gomisiynydd y Gymraeg a bod angen un pwynt cyswllt clir ar gyfer y cyhoedd sy'n ceisio mynnu eu hawliau.<br><br>Credwn y dylai pobl Cymru ddal i allu cwyno wrth y corff neu'r Comisiynydd.<br><br>Gellid gwella'r broses gwyno drwy roi hyblygrwydd i'r Comisiynydd i leihau'r amser a nifer y camau yn ystod proses ymchwilio lle nad oes anghytuno ynghylch ffeithiau'r achos.<br><br>Nid oes achos dros lacio'r Safonau na'r ffordd o'u dehongli: dylai cyrff gydymffurfio â'r gyfraith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | papur gwyn]<br><br>"Gellid dileu neu ddiwygio Safon sy'n ymwneud â gwasanaeth neu weithgaredd sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol ar gyfer y cyhoedd os yw'n gostus i'w gweithredu ond sy'n arwain at ychydig iawn o fudd i'r cyhoedd. [e.e.] cyfieithu dogfennau corfforaethol a thechnegol maith ..."<br><br>[para 151, tud. 40]<br><br>"Gellid rhoi mwy o gyfle i'r cyrff ddefnyddio eu crebwyll yn rhesymol o safbwynt Safonau penodol, heb danseilio egwyddor gyffredinol y Safonau gorfodadwy."<br>[para 151, tud. 40] | Am nifer o resymau, mae llawer o bobl, yn enwedig gweithwyr neu bobl gyda pherthynas grant neu gytundeb gyda chorff, angen gallu gwneud cwynion yn ddi-enw. Ni fyddai modd gwneud hynny pe bai'n rhaid cwyno wrth y corff yn gyntaf.<br><br>Nid oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau'r cynigion. Mae'r cynigion yn seiliedig ar brofiad dim ond "naw mis ar ôl i'r Safonau cyntaf ddod i rym (Ebrill hyd Ragfyr 2016)"[4]. Nid oes unrhyw asesiad o effaith na gwerth y prosesau a fodolai dan Ddeddf Iaith 1993 sy'n debyg iawn i gynigion y papur gwyn. | |
| | Dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg. Dylai cyrff allu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn bwriad gan Lywodraeth Cymru i osod | Cytunwn y dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n adrodd cyfrolau bod y Llywodraeth yn blaenoriaethu cadw hawliau apelio cyrff yn lle ceisio cryfhau rhai pobl gyffredin sydd angen mwy o gyfle a grym i herio gan fod ganddynt lai o adnoddau i | Dylid cadw'r Tribiwnlys, ond dylai fod hawliau cyfartal gan achwynwyr a chyrff i apelio iddo. Ar hyn o bryd, mae gan gyrff fwy o hawliau i apelio i'r Tribiwnlys na phobl gyffredin. |

[4] **para 209, tud 52 y papur gwyn**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Safon arnynt.<br>[para 229, tud 58 y papur gwyn] | apelio. | |
| **Ymestyn i weddill y sector breifat** | "Nid ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru osod Safonau'n fuan ar gyrff nad ydynt yn dod o fewn system y Safonau ar hyn o bryd. O ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol yn sgil y penderfyniad i adael yr UE...."<br><br>[para 245, tud 61 y papur gwyn]<br><br>Dileu'r rhestr o gyrff y gellir gosod Safonau'r Gymraeg arnyn nhw. Yn lle, bydd system benagored, lle gellid gwneud unrhyw gorff yn ddarostyngedig i'r Safonau, cyn belled â bod y gofynion yn rhesymol ac yn gymesur ac o fewn pwerau'r Cynulliad.<br><br>[para 241, tud 61 y papur gwyn] | Anghytunwn yn gryf gyda safbwynt y Llywodraeth na ddylid gosod Safonau ar gyrff sector preifat yn fuan.<br><br>Mae cwmnïau sector preifat yn rhan ganolog o fywydau bob dydd pobl – yn defnyddio ffonau symudol, bancio a siopa. Os ydy'r Llywodraeth o ddifrif am normaleiddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd a chynyddu ei defnydd, yna mae'n amlwg bod angen ymestyn y Safonau i'r holl sector preifat.<br><br>Credwn ei bod yn warthus bod y Llywodraeth yn gwrthod ymestyn y Safonau i weddill y sector preifat er mwyn amddiffyn buddiannau cwmnïau cyfoethog iawn ar draul hawliau pobl Cymru.<br><br>Yn wir, mae'n groes i eiriau'r Gweinidog Alun Davies ei hunan mewn cyfarfod gyda Chymdeithas yr Iaith ym mis Mawrth 2017, pan ddywedodd ei fod yn bersonol o blaid estyn Safonau i archfarchnadoedd a banciau.<br><br>Mewn cyfarfod gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg ym mis Tachwedd 2015, dywedodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, wrth Gymdeithas yr Iaith Gymraeg bod banciau yn ‘ddigon mawr’ i’w cynnwys yng nghyfundrefn Safonau’r Gymraeg.<br><br>Yn ogystal, credwn fod y cynigion i ddileu'r rhestr o gyrff yn atodlenni'r Mesur presennol, ynghyd â thynnu'r grym oddi ar Gomisiynydd y Gymraeg i gychwyn y broses o osod y Safonau, gyda'i gilydd yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd rhagor o gyrff sector breifat yn dod yn ddarostyngedig i ddyletswydd iaith.<br><br>Mae'n werth nodi bod Paragraff 239 yn nodi: *"...Mae galw wedi bod gan rai rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y Gymraeg y dylai* | Dylid ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd:<br>• gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr<br>• gan sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ddod â holl gyrff y sector breifat o fewn y gyfundrefn Safonau<br><br>Dylai fod rhestr o gategorïau o gyrff ar wyneb y Mesur y gellid eu cynnwys dan y gyfundrefn Safonau gydag amserlen sy'n sicrhau y bydd Safonau yn dod i rym o fewn y sectorau hynny. Dylai fod pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ychwanegu at y categorïau hynny yn ogystal. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *banciau ac archfarchnadoedd, fel cyrff nad ydynt o fewn cwmpas y Mesur ar hyn o bryd, gael eu cynnwys yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid o'r gymuned fusnes wedi mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd y bydd rhagor o fusnesau'r sector preifat yn cael eu cynnwys yn system y Safonau ac maent wedi dadlau dros wneud cynnydd ar sail wirfoddol, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill."*<br>Mae'n werth nodi hyn am ddau reswm:<br>1. Mae felly'n glir, o ystyried y casgliad ym mharagraff 245, bod y Llywodraeth yn fwy tebygol (ac yn gwneud hynny) o ochri gyda "rhanddeiliaid o'r gymuned fusnes" na chyda "rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y Gymraeg".<br>2. Methodd "cynnydd ar sail wirfoddol" o dan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, felly pam dychwelyd at rywbeth yr ydym yn gwybod ei fod wedi methu unwaith? | |

2.5. Gan ystyried nad oes consensws o blaid newidiadau arfaethedig y Llywodraeth yn y papur gwyn, fel ffordd ymlaen, credwn y dylai'r Llywodraeth:

i. roi'r papur gwyn yn y bin a gwneud popeth posib i wella gweithrediad y system o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol gan fwrw ati i symud pethau ymlaen oddi mewn i'r fframwaith hwnnw yn lle'r oedi difrifol sy'n digwydd ar hyn o bryd; a
ii. dechrau o'r dechrau gyda'r papur gwyn, a dod yn ôl gyda phapur newydd pan fo rhywbeth gwerth chweil gan y Llywodraeth i'w gynnig sef:
    - Cryfhau'r Safonau drwy sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y ddeddf
    - Gosod Safonau ar weddill y sector breifat, gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr, cyrff y 'goron' a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr gan osod terfynau amser o ran gosod Safonau arnynt
    - Cryfhau pwerau ac annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a sefydlu corff ar wahân i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg

## 3.Sylwadau Cyffredinol

### 3.1. Cyflwyniad i'r ddogfen (paragraffau 1 i 46)

3.1.1. Mae'n destun tristwch gweld defnydd anghywir, anghytbwys a gwallus o ystadegau a'r canfyddiadau anwyddonol sy'n seiliedig ar y ffigyrau gwallus hynny. Ceir enghreifftiau di-ri o hyn ar ddechrau'r ddogfen ymgynghori sy'n rhan o batrwm yn y papur o beidio â gwneud defnydd cywir o ystadegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol na domestig gadarn.

3.1.2. Ymddengys fod rhywfaint o'r adran hon yn ceisio dadansoddi'r sefyllfa bresennol o ran defnydd y Gymraeg. Nodwn gyda chryn syndod, felly, nad oes cyfeiriad at Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg nac ychwaith gyfeiriad at adroddiad Cyngor ar Bopeth "Hefyd ar gael yn Gymraeg" a gyhoeddwyd yn 2015. Penderfynwyd cyhoeddi'r papur gwyn cyn cyhoeddi adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg; mae'n glir y byddai gweld tystiolaeth yr adroddiad yna wedi gwella'n sylweddol sylfaen dystiolaeth y papur gwyn ac, o ganlyniad, y cynigion deddfwriaethol.

3.1.2. Ym mharagraffau 15 i 19, rhoddir llu o ddatganiadau anwybodus, gwallus a chamarweiniol fel tystiolaeth bod defnydd o'r Gymraeg yn isel ac nad yw'r gyfundrefn bresennol yn gweithio. Parthed Cyngor Sir Abertawe, mae'r papur yn defnyddio nifer yr ymweliadau â gwefan y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r papur gwyn yn nodi mai mis Mehefin 2017 oedd y ganran uchaf erioed o ran defnydd o'r wefan Gymraeg ers iddynt lansio eu gwefan ym mis Hydref 2014. Ym mis Mehefin, roedd nifer yr ymweliadau Cymraeg ar y wefan bron dair gwaith yn fwy (2.2%) na mis Hydref 2014 (0.84%), gyda defnydd o'r Gymraeg ar y wefan yn sylweddol uwch yn gyson ers i'r Safonau ddod i rym[5].

3.1.3. Parthed Cyngor Sir Wrecsam, adroddir ym mharagraff 15 y papur gwyn "roedd 0.5% o'r galwadau i'r ganolfan gyswllt a'r ymweliadau â'r ganolfan yn Gymraeg". Fodd bynnag, nid yw'r papur yn nodi bod y ffigwr hwnnw chwe gwaith yn fwy na'r nifer yn y flwyddyn flaenorol cyn i'r Safonau ddod i rym – 215 yn 2015/16 o gymharu â 1,307 yn 2016/17[6]. Mae'r methiant hwn i esbonio cyd-destun pwysig y ffigurau yn amhroffesiynol, ac yn tanseilio hygrededd y papur gwyn. Disgwyliwn i'r Llywodraeth gyflwyno ffeithiau ac ystadegau'n gywir, ac mae methiant i wneud hynny yn rheswm arall dros roi'r papur hwn yn y bin.

3.1.4. Ym mharagraff 16, cyfeirir at y DVLA a'r Asiantaeth Safonau Gyrru a'r diffyg defnydd o'u gwasanaethau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes sôn yn y papur gwyn am y ffaith nad yw'r cyrff hyn yn dod o dan gyfundrefn y Safonau. Mae hynny'n amlygu'r ffaith bod y papur gwyn yn anwybodus, yn amhroffesiynol ac yn gamarweiniol. Pe byddai awduron y papur yn deall y gwirionedd, bydden nhw wedi sylweddoli mai methiant cynlluniau iaith a chyfundrefn reoleiddio lac Bwrdd yr Iaith sy'n bennaf gyfrifol am y defnydd isel. Mae diffyg difrifol o ran darparu profion gyrru ymarferol yn Gymraeg; rydym yn gwybod am wasanaethau yn cael eu canslo ar sawl achlysur. Does dim hyd yn oed deunyddiau dysgu Cymraeg ar gael ar gyfer y profion theori. Mae hynny'n ganlyniad diffyg rheoleiddio cadarn, nid gormod o reoleiddio fel mae'r papur gwyn yn ei honni, a hynny heb dystiolaeth i gefnogi'r honiad.

3.1.5. Credwn felly fod y casgliad ym mharagraff 17 bod angen *'annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg'* yn wallus am nifer o resymau:

i) mae defnydd gwasanaethau Cymraeg wedi cynyddu lle mae gwasanaethau ar gael yn gyson, o'r un ansawdd â'r rhai Saesneg ac yn cael eu cynnig yn rhagweithiol

ii) mae tystiolaeth gadarn, drwy adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg, bod y Safonau'n gwneud gwahaniaeth

iii) nid oes tystiolaeth dros yr awgrym y dylai'r pwyslais fod ar annog unigolion i ddefnyddio gwasanaethau yn hytrach na rheoleiddio er mwyn normaleiddio defnydd o'r Gymraeg gan gyrff a chwmnïau

---

[5] http://abertawe.gov.uk/article/8170/Ystadegaur-wefan

[6] http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/welsh_language_standards/welsh_annual_monitoring_report_2016_17w.pdf

iv) mae'r papur yn anwybyddu hanes a thystiolaeth profiad bron i 20 mlynedd o gyfundrefn ffaeledig Bwrdd yr Iaith.

v) Does dim cyfeiriad at y ffaith mai rheoleiddio ynddo'i hun yw'r hyrwyddiad pennaf ac mai dyma sy'n chwarae'r rhan fwyaf blaenllaw mewn newid agweddau. Dyma yw un o egwyddorion sylfaenol newid ymddygiad. Gweler 'Counseling in Psychological Services' gan Dr Dilys Davies 1997.

3.1.6. Synnwn yn fawr nad yw'r Llywodraeth wedi derbyn canlyniad Arolwg Omnibws Comisiynydd y Gymraeg[7] sy'n rhestru'r canlynol fel ffactorau pwysig o ran cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg. Er mwyn gwella'r rhan fwyaf o'r ffactorau hyn angen mwy, nid llai, o reoleiddio:

*"Byddwn yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg ...*

- *pe bawn i'n gwybod bod y gwasanaethau Cymraeg ar gael bob tro*
- *pe bawn i'n gwybod eu bod ar gael*
- *pe bawn i'n cael dewis*
- *pe bai'r dewis yn cael ei wneud yn glir i mi*
- *pe baen nhw'n cychwyn y sgwrs yn Gymraeg*
- *ar ôl gwella fy hyder i siarad Cymraeg gan nad ydw i'n ddigon rhugl*
- *pe bai'r iaith yn llai ffurfiol a mwy naturiol*
- *pe na bawn i'n cael trafferth deall acen ogleddol/deheuol weithiau*
- *pe bai'n haws*
- *pe bai'r gwasanaeth ar gael yn gynt*
- *pe baent yn cael eu hysbysebu*
- *pe baent o safon well - dydi gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig ddim o safon uchel"*

3.1.7. Nid yw'r dadansoddiad ym mharagraff 19 felly yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Honna'r papur gwyn mai'r her yw "sicrhau ein bod yn rhoi digon o sylw i gapasiti cyrff i addasu i'r cynnydd sylweddol yn lefel y ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg a fydd yn ofynnol ganddynt". Mae hynny'n anghofio ffaith amlwg i arbenigwyr yn y maes bod y cyrff sydd wedi dod dan y Safonau hyd yn hyn i gyd yn gyrff sydd wedi bod yn gweithredu cynllun iaith ers sawl blwyddyn. Yn hynny o beth, mae nifer fawr ohonynt wedi cael dros 15 mlynedd i roi sylw a chael cymorth gyda'u capasiti, a hynny dan gyfundrefn led-debyg

[7] Tudalen 47, Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2016-17 http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20170926%20DG%20Adroddiad%20Sicrwydd%20terfynol%20Cymraeg.pdf

i gynigion y papur gwyn. Hynny yw, roedd ffocws gwaith Bwrdd yr Iaith a chynlluniau iaith ar fonitro a chynnig gwelliannau mewn ffordd 'feddal' neu 'ysgafn'. Mae'n wirioneddol syfrdanol bod awduron y papur gwyn fel petaent wedi anghofio'r profiad hwnnw. Y realiti yw, gwrthododd nifer fawr o gyrff addasu eu hymddygiad, yn enwedig eu polisïau recriwtio a hyfforddi, er mwyn cyflawni gofynion y gyfraith. Mae dyletswyddau a geir yn y Safonau yn debyg iawn i ofynion y cynlluniau iaith. Felly, yn hanesyddol cyn dyfodiad y Comisiynydd, diffyg rheoleiddio, nid diffyg hybu, oedd un o brif wendidau'r gyfundrefn.

3.1.8. Ym mharagraff 32, honnir bod defnydd isel o wasanaethau Cymraeg ac yn ogystal *"nid yw'n glir eto a ydym wedi dod o hyd i ddulliau effeithiol o sicrhau newidiadau hirdymor o ran dewis iaith pobl wrth dderbyn gwasanaethau".* Yn anffodus, nid yw'r papur gwyn yn cyfeirio at y dystiolaeth amlwg, sydd wedi ei chomisiynu gan y Llywodraeth ei hun, sef yr Arolwg Defnydd Iaith, sy'n darparu nifer o'r atebion. Mae'n rhaid dweud ei bod yn rhyfedd gweld bod y Llywodraeth yn taflu cwestiynau fel hyn o gwmpas pan fo nifer o'r atebion gennym yn barod.

3.1.9. Mae paragraff 34, yn honni "ar y lefel fwyaf sylfaenol, bydd angen inni:... penodi eiriolwr ar ran yr iaith", ond mae eiriolwr eisoes yn bodoli a hynny yw Comisiynydd y Gymraeg. Nid yw cynigion y Llywodraeth i ddiddymu Comisiynydd y Gymraeg yn dal dŵr - a dilyn rhesymeg y Llywodraeth ei hun yn y paragraff hwn, mae gyda ni eiriolwr ar ran y Gymraeg yn barod, felly pam ei ddiddymu?

3.1.10. Mae'r adran ynglŷn â lleihau biwrocratiaeth yn embaras gwirioneddol i unrhyw un sy'n deall rheoleiddio neu sut i amddiffyn hawliau sifil. Yn wir, ym mha faes cydraddoldeb arall y byddai'r Llywodraeth yn dadlau yn y fath fodd?

3.1.11. Ym mharagraff 36, ceir datganiad rhyfedd a di-sail ei bod yn "*anffodus bod rhai agweddau ar y Safonau a gyflwynwyd gan y Mesur wedi cael y prif sylw o ran polisi'r Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan effeithio ar ganfyddiad pobl ohono*". Ble mae'r dystiolaeth bod hyn yn anffodus? Canfyddiad pwy yw hyn? Ac ar sail pa dystiolaeth? Nid yw'n ymddangos bod unrhyw sail gadarn i'r honiadau hyn; nid yw hynny'n ffordd broffesiynol o ddatblygu polisi.

3.1.12. Mae paragraff 37 yn datgan '*nid oes amheuaeth bod y ffordd y mae'r system yn gweithio yn gosod baich gweinyddol sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus'*. Yn gyntaf, dim ond o bersbectif y cyrff mae'r adran yma yn edrych – nid oes ymdrech i ofyn y cwestiwn a ydy'r gyfundrefn yn fwy neu'n llai beichus o safbwynt y dinesydd. Diben cyfundrefn y Safonau yw gweithredu er lles defnydd y Gymraeg a defnyddwyr y Gymraeg; nid baich gweinyddol i gyrff ddylai fod yn brif brawf er mwyn asesu'r angen i ddiwygio neu newid y fframwaith deddfwriaethol. Dylid dechrau gyda phrofiad defnyddwyr, ond does dim yn y papur gwyn sy'n ceisio asesu agwedd pobl a defnyddwyr mewn unrhyw ffordd. Yn ffodus, mae gyda ni Gomisiynydd y Gymraeg sydd wedi gwneud ymchwil mewn Adroddiad Sicrwydd am agweddau a phrofiadau pobl llawr gwlad o'r system newydd. Mae'n amlygu'r gwendid cyffredinol yn y papur sef bod y ffocws bron â bod yn gyfan gwbl ar anghenion sefydliadau yn hytrach na phobl.

3.1.13. Nid yw paragraff 37 chwaith yn gwneud cymhariaeth o gwbl rhwng system y Safonau a'r gyfundrefn a fu dan Ddeddf Iaith 1993 o ran y baich gweinyddol. Er mwyn cloriannu'r gyfundrefn yn iawn, mae rhesymeg yn dweud y byddai'n rhaid pwyso a mesur ein system bresennol gyda'r system flaenorol. Nid oes diben gwneud datganiad syml ac ysgubol bod baich gweinyddol 'sylweddol' heb wneud ymdrech o unrhyw fath i ddadansoddi a chymharu'r gyfundrefn bresennol gyda'r un flaenorol. Byddai gan unrhyw gyfundrefn reoleiddio 'faich', ac, o bersbectif y defnyddiwr, gellid dadlau bod y Safonau'n llai beichus yn weinyddol na chyfundrefn Deddf 1993 am y rhesymau canlynol:

- roedd mwy o ymgynghori gyda chynlluniau iaith, gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar bob cynllun unigol – er bod llai o ymwneud â'r ymgynghoriadau hynny oherwydd bod cymaint ohonyn nhw ac nad yw cynlluniau iaith unigol yn berthnasol iawn i gymaint o unigolion;
- roedd llawer iawn o ymrwymiadau di-ystyr mewn cynlluniau iaith nad oedd modd eu gorfodi;
- roedd mwy o ddogfennau i'w darllen er mwyn deall dyletswyddau cyrff i ddarparu;
- roedd llawer iawn o waith drafftio a negodi rhwng cyrff a Bwrdd yr Iaith;
- roedd rhaid cwyno wrth gyrff yn unigol cyn troi at Fwrdd yr Iaith, gyda'r holl ohebu ychwanegol roedd rhaid i unigolyn ei wneud ynghylch cwyn;
- lleiafrif bach iawn o gwynion oedd yn arwain at ymchwiliad felly roedd yn rhaid i bobl bwyso ar gyrff mewn ffyrdd eraill i sicrhau gwasanaethau Cymraeg;
- roedd y gofynion adrodd a monitro yn debyg

Yn hynny o beth, dyna yw natur cyfundrefn reoleiddio sy'n gwneud gwahaniaeth – bydd baich sylweddol ar sefydliadau. Yr unig wahaniaeth yw bod y Safonau yn 'faich' sy'n effeithiol, yn dwyn ffrwyth ac yn cynnig 'gwerth am arian'.

3.1.14 Yn wir, adeg cyflwyno Deddf Iaith 1993, byddai rhai wedi dadlau y byddai'n well 'defnydd amser' ac 'ymdrech' gwella gwasanaethau neu hybu'r Gymraeg na chreu cynlluniau iaith. Mae profiad yn dangos yn glir nad yw'r cyrff yn gwneud hynny; yn wir, rhai o'r cynghorau gwaethaf am gydymffurfio hefyd yw'r rhai sydd hefyd y gwaethaf o ran tyfu addysg Gymraeg a chefnogi mentrau lleol i hybu'r Gymraeg. Wrth reswm, o ran nifer o gwmnïau mawrion, maent wedi dweud yn blwmp ac yn blaen na fydden nhw'n darparu oni bai bod y gyfraith yn eu gorfodi[8][9].

3.1.15. Mae'r honiadau ym mharagraff 38 yn chwerthinllyd. Dywed y papur gwyn bod *"yna risg wirioneddol hefyd fod geiriau fel 'gosod', 'cydymffurfio' a 'gorfodi' yn tanseilio ymdrechion i greu consensws ac ewyllys da tuag at y Gymraeg."* Ym mha faes polisi arall y byddech chi'n dadlau bod geiriau fel 'gorfodi' a 'chydymffurfio' yn peryglu cefnogaeth i hawliau? Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn meddwl am eiliad ceisio gwneud sylwadau tebyg am feysydd fel hawliau gweithwyr neu eraill. Yn wir, o gymryd yr isafswm cyflog fel enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cyhuddo Llywodraeth Prydain o beidio â rheoleiddio'n ddigonol yn yr achos yna. Nid yr ieithwedd yw asgwrn y gynnen o safbwynt y Llywodraeth, ond y maes: nid yw hawliau i'r Gymraeg yn ddigon pwysig i haeddu rheoleiddio cadarn. Eto, mae'r honiadau hyn yn anwybyddu profiad dyddiau Bwrdd yr Iaith a fu'n dilyn trywydd a fyddai at ddant awduron y papur gwyn, sef 'creu consensws' ac adeiladu 'ewyllys da', ond, mewn gwirionedd, mae diffyg datblygiad gwasanaethau Cymraeg heddiw yn dystiolaeth ddiamheuol o fethiant y rheoleiddio 'ysgafn' hwnnw.

[8] Adolygiad o Wasanaethau Cymraeg Archfarchnadoedd, Grŵp Hawl, Cymdeithas yr Iaith (Awst 2015) http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Archfarchnadoedd_MEWN.pdf

[9] Banciau – diffyg parch at y Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith (Tachwedd 2014) http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Banciau%20-%20Cymdeithas%20yr%20Iaith.pdf

3.1.16 Eto ym mharagraff 38, nodir bod *"ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn awgrymu bod rhai siaradwyr Cymraeg yn poeni am gael gwaith ychwanegol am eu bod yn siarad Cymraeg ac yn ofni y bydd y Safonau yn eu 'dal' am nad yw eu Cymraeg yn ddigon da"*. Prin ein bod wedi gweld sylwadau mwy annoeth mewn ymgynghoriad erioed o'r blaen. Yn gyntaf, hoffem wybod faint o staff mae'r Llywodraeth wedi siarad â nhw; fel arall, mae'n debyg eu bod yn dibynnu ar honiad cyrff bod staff yn pryderu, yn hytrach na'r gweithwyr eu hunain. O ran y cyrff a fu ynghlwm â chynlluniau iaith, byddent yn llawn ymwybodol mai cyfrifoldeb y corff yw cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod y sgiliau ganddynt i allu darparu gwasanaethau yn Gymraeg, nid cyfrifoldeb y gweithwyr unigol. Cafwyd dros 20 mlynedd o gynlluniau iaith a chyfundrefn reoleiddio 'feddal', a methwyd â newid patrymau cynllunio'r gweithlu. Cadarnhau hynny gwna'r ffaith bod cyrff nawr yn ceisio honni bod staff yn poeni am fwy o waith, yn lle cymryd cyfrifoldeb am eu methiant fel cyrff a chydnabod methiant cyfundrefn flaenorol Bwrdd yr Iaith a chynlluniau iaith. O ran cyrff sydd eisoes yn gweithredu dan y gyfundrefn Safonau, mae'n rhaid cofio bod y rhan fwyaf o ddyletswyddau ddim ond yn ail-adrodd yr hyn oedd yn eu cynlluniau iaith. Wedi dros 20 mlynedd o weithio tuag at drin y Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfartal â'r Saesneg, onid annoeth yw gwrando ar gwynion eu bod yn gorfod 'cydymffurfio' a bod 'gorfodi'? Faint o amser sydd angen arnyn nhw? 20 mlynedd arall?

3.1.17. Nid yw'r Llywodraeth wedi cynnal gweithdai gyda gweithwyr na'r cyhoedd cyn llunio'r papur gwyn; dim ond cyrff oedd yn cael cymryd rhan. Yn wir, penderfynodd Llywodraeth Cymru gau'r cyhoedd allan o'r gweithdai a gynhaliwyd cyn cyhoeddi'r papur gwyn.

3.1.18. Ym mharagraff 40, honnir bod y system bresennol yn 'cymryd amser hir i gywiro pethau'. Mae hynny'n amlygu diffyg dealltwriaeth o sawl mater. Yn gyntaf, nid yw'n ymdrin â hanes Bwrdd yr Iaith lle bu methiant i sicrhau cydymffurfiaeth oherwydd rheoleiddio 'ysgafn' oedd yn golygu nad oedd llawer o bethau yn cael eu cywiro o gwbl, gyda methiannau cyson yn arwain at ddim newid. Yn ail, rydym ar ddeall bod ymchwiliadau Bwrdd yr Iaith yn tueddu i gymryd amser llawer hirach (dros flwyddyn) nag ymchwiliadau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn olaf, mae'r honiad hefyd yn anwybyddu'r ffaith bod nifer o gwynion 'llai', er enghraifft arwyddion ffyrdd, yn aml yn symptom o broblemau dyfnach lle byddai unioni'r diffyg unigol yn methu â delio â phroblemau dyfnach o fewn y corff yn ehangach.

3.1.19. Mae'n adrodd cyfrolau bod pennawd 'tystiolaeth gan gyrff' ac nad oes yr un pennawd cyfatebol yn datgan 'tystiolaeth defnyddwyr y Gymraeg'. Mae'r diffyg blaenoriaeth i bobl ar lawr gwlad sydd am fyw eu bywydau yn Gymraeg, neu am i'w plant neu eu hwyrion fyw yn Gymraeg, yn syfrdanol. Ymddengys nad yw'r Llywodraeth, wrth lunio'r Papur Gwyn hwn, wedi ystyried defnyddwyr a'u profiadau nhw o gwbl. Mae hynny'n ddull sy'n groes i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn groes i amcanion llesiant y Llywodraeth sy'n nodi y dylid trin y cyhoedd fel partneriaid cydradd.

3.1.20. Ym mharagraff 44, honnir bod y ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn 'rhy feichus' i gyrff, ond dadleuir nes ymlaen bod angen i fwy o gwynion fynd atyn nhw'n uniongyrchol. Ar yr wyneb, byddai system sy'n golygu bod Comisiynydd y Gymraeg yn delio â mwy o gwynion, yn lle cyrff, yn llai o faich ar y cyrff. Awgrymwn mai un o'r ychydig resymau pam na fyddai hynny'n wir yw arfer cyrff o ymdrin â'r un cwynion mewn llai o fanylder a chyda llai o ddifrifoldeb. Mae'n bwysig cofio ei bod yn haws, yn gliriach ac yn llai beichus o safbwynt y cyhoedd os ydynt yn gwybod y gallan nhw fynd yn syth at y Comisiynydd i gwyno. Ac, oni ddylen ni asesu sut mae trefniadaeth cwyno yn gweithio ar sail sut mae'r cyhoedd yn teimlo amdani yn hytrach na chyrff? Wedi'r cwbl, onid yw'r system gwyno yno i wasanaethu'r cyhoedd nid y cyrff?

### 3.2.. Rhan 1 (paragraffau 47 i 83) - Diddymu Comisiynydd y Gymraeg heb ymdrech i esbonio

3.2.1. Yn rhyfedd oll, yr unig gyfeiriad yn y papur gwyn at y ffaith bod y Llywodraeth yn cynnig diddymu Comisiynydd y Gymraeg yw'r rhestr o brif gynigion ym mharagraff 48. O feddwl ei fod yn brif gynnig, mae'r diffyg esboniad neu gyfiawnhad dros ddiddymu swydd mor bwysig yn frawychus. Heb fynd i'r afael â manteision ac anfanteision swydd Comisiynydd y Gymraeg nid oes modd ystyried cynigion y Llywodraeth yn rhesymegol. Nid oes tystiolaeth.

3.2.2. Credwn fod angen cadw Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau:

- bod swyddogaethau rheoleiddio yn cael eu gwneud yn iawn heb eu llesteirio gan gyfrifoldebau hybu;
- bod rheoleiddiwr ac eiriolwr dros y Gymraeg yn atebol ac yn amlwg i'r cyhoedd;
- bod pencampwr clir i'r Gymraeg, nad yw'n cael ei lesteirio gan gyfrifoldebau i annog neu gyfaddawdu gyda chyrff;
- bod Cymru yn dilyn model rhyngwladol cydnabyddedig o ehangu hawliau i iaith leiafrifoledig;
- nad oes colli momentwm, wedi 18 mis yn unig o ddechrau cynnal cyfundrefn y Safonau;
- bod rheoleiddio'n broses a gynhelir yn annibynnol ar y Llywodraeth;
- bod rheoleiddiwr gyda'r arbenigedd i wneud y gwaith yn lle gweision sifil nad ydynt, oherwydd strwythur y gwasanaeth sifil, yn arbenigwyr ym maes rheoleiddio iaith

3.2.3. Credwn ei bod yn bwysig nodi gwendidau Bwrdd yr Iaith fel cyfundrefn a fodolai am tua ugain mlynedd, gan fod y Llywodraeth yn argymell, i bob pwrpas, ail-sefydlu'r un corff. Ymysg y gwendidau hynny roedd:

- diffyg blaenoriaeth i amddiffyn hawliau iaith o fewn y sefydliad, gan ganolbwyntio adnoddau ar brosiectau hybu meddal ar draul rheoleiddio
- tyndra mewnol rhwng cyfrifoldebau hybu a rheoleiddio, gan arwain at gyfaddawdu â chyrff ar draul hawliau unigolion i'r Gymraeg;
- penderfyniad bwriadol y Bwrdd i beidio â defnyddio eu grymoedd gorfodi dan adran 20 Deddf Iaith 1993 (dim ond unwaith y defnyddiwyd y grym hwnnw gan Fwrdd yr Iaith, a hynny wedi'r penderfyniad i'w ddiddymu yn 2010)
- diffyg atebolrwydd i'r cyhoedd, gyda dim un pennaeth gweladwy i'r cyhoedd
- gormod o ddisgresiwn i beidio ag ymdrin â chwynion gan y cyhoedd a arweiniodd at golli ffydd y cyhoedd yn broses
- gormod o ddisgresiwn i gytuno ar gynlluniau iaith gwan iawn heb atebolrwydd i'r cyhoedd na gweithredu democrataidd

3.2.4. Credwn ei bod yn bwysig iawn nodi bod Comisiynwyr Iaith yn fodel cydnabyddedig yn rhyngwladol fel ffordd o amddiffyn ac ehangu hawliau iaith. Yn hynny o beth, mae'n werth nodi bod wyth aelod o Gymdeithas Rhyngwladol y Comisiynwyr Iaith[10] yn y gwledydd canlynol:

- Kosovo
- Nunavut
- New Brunswick
- Cymru
- Catalonia
- Fflandrys
- Gwlad y Basg
- Ontario
- Canada
- Iwerddon

3.2.5. Gwelwn fod angen Comisiynydd y Gymraeg mor annibynnol o'r Llywodraeth â phosib, yn enwedig o ran ei benodi, ei atebolrwydd a'i ariannu, er mwyn sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddio, ymchwil ac eirioli'n cael eu gwneud yn iawn. Nodwn y daeth adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r casgliad y dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am benodi a chyllido'r Comisiynydd Plant:

> *"Ceir egwyddorion eglur ynglŷn ag annibyniaeth cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ym maes hawliau dynol. Dylai Llywodraeth Cymru eu cydnabod ac ymlynu wrthynt trwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb am benodi a chyllido'r Comisiynydd Plant i'r Cynulliad Cenedlaethol."*[11]

**3.2.6. Argymhellwn felly y dylid cadw a chryfhau Comisiynydd y Gymraeg drwy'r newidiadau canlynol:**

- **Dylai'r Cynulliad, nid y Llywodraeth, benodi ac ariannu Comisiynydd y Gymraeg er mwyn cryfhau'r annibyniaeth hynny gan fod y trefniadau presennol yn ei wneud yn rhy agored i bwyso gan Weinidogion sy'n rheoli ei chyllideb a'i phenodiad. Gresynwn fod y**

[10] http://languagecommissioners.org/welcome.php?lang=10

[11] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141210-childrens-commissioner-reportv3-cy.pdf

**Llywodraeth, yn hytrach na chynnig rhagor o annibyniaeth i'r Comisiynydd am ganoli grym dros benodi a rheoleiddio'n fwyfwy o fewn y Llywodraeth.**

- **Dylid cryfhau pwerau cosbi'r Comisiynydd, gan gynnwys rhoi'r hawl i'r Comisiynydd osod dirwy sy'n uwch na £5,000 yn unig, yn enwedig gan ystyried maint ac elw cyrff yn y sector preifat y dylid ymestyn Safonau i'w cwmpasu.**
- **Sefydlu corff hyrwyddo ar wahân fel bod modd i'r Comisiynydd ganolbwyntio ar reoleiddio a sicrhau bod y gyfundrefn Safonau yn gweithio'n iawn.**
- **Gosod amserlen ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau bod Safonau yn cael eu gosod ar gyrff o fewn hyn o hyn o amser ac nad oes modd i Weinidog atal ymestyn hawliau iaith i ragor o sectorau preifat.**
- **Sefydlu rhai hawliau sylfaenol a chyffredinol ar wyneb y Mesur er mwyn egluro i'r cyhoedd eu hawliau gan hwyluso gwaith y Comisiynydd o ehangu hawliau'r Gymraeg a'u defnydd.**

## Hybu'r Gymraeg

3.2.7 Credwn yn ogystal â sicrhau bod mwy o reoleiddio cadarn, bod angen mwy o hybu'r Gymraeg. Mae'n bwysig nodi nad 'cydbwysedd' rhwng rheoleiddio a hybu sydd ei angen, gan nad oes angen dewis rhwng y ddau. Mae'n anffodus iawn bod holl rethreg y Llywodraeth yn ategu'r syniad bod angen llai o reoleiddio er mwyn caniatáu mwy o hybu – os edrychwn ni at nifer o achosion hanesyddol

3.2.8. Un frawddeg yn unig y papur gwyn – ym mharagraff 58 - sy'n cydnabod bod y Safonau 'yn elfen hollbwysig o hybu'r Gymraeg', ond wedi cyfeirio unwaith at hynny, nid yw'r papur gwyn yn cynnig yr un syniad i ddatblygu hynny. Mewn cyfnod o lymder, nad yw'n gwneud synnwyr cyfyngu Safonau Hybu i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn unig, gan y byddai mwy o adnoddau hybu ar gael drwy ledaenu'r cyfrifoldeb. Wedi'r cwbl, mae sicrhau bod cwmnïau mawrion, megis rhai telathrebu, trafnidiaeth, banciau ac archfarchnadoedd a siopau'r stryd fawr, yn hybu'r Gymraeg yn mynd i wneud gwahaniaeth fawr i ddefnydd y Gymraeg ym mywydau bob dydd – yn fwy na'r gyllideb y gall Llywodraeth Cymru ddosrannu ar ei phen ei hun. O wybod hynny, mae methiant y papur gwyn i gynnig ymestyn y Safonau, gan gynnwys y Safonau Hybu, i'r meysydd hyn yn bell o sicrhau'r 'gwerth am arian' bondigrybwyll.

**3.2.9. Argymhellwn y dylid sicrhau bod modd gosod pob categori o Safonau, gan gynnwys Safonau Hybu, ar gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a chwmnïau preifat a gwirfoddol, nid awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru'n unig.**

## Cyngor y Gymraeg – corff hyrwyddo newydd ar wahân i'r Comisiynydd a'r Llywodraeth

3.2.10. Yn ogystal â'r uchod, credwn fod angen corff newydd i hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod mwy o hybu'n digwydd, ond ni ddylai hynny fod ar draul gwaith rheoleiddio. Mae hynny'n debyg i, ond nid yn union yr un cynnig ag, opsiwn 3 ym mhapur gwyn y Llywodraeth. Yn hynny o beth, mae'n bwysig nodi ein bod yn anghytuno'n llwyr gyda chynnig y Llywodraeth i gymryd dros y cyfrifoldeb am gynnal ymchwiliadau/ymgynghoriadau Safonau a'r grymoedd i osod y Safonau ar gyrff.

**3.2.11. Argymhellwn felly y dylai fod corff hyrwyddo newydd, ar wahân i'r Comisiynydd a'r Llywodraeth, o'r enw Cyngor y Gymraeg.**

3.2.8. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff rheoleiddio annibynnol pwysig iawn a dadleuwn fod angen corff hyrwyddo ar wahân i swyddfa'r Comisiynydd a'r Llywodraeth. Ni ddylai'r corff hyrwyddo newydd ddod ar draul annibyniaeth na gwaith Comisiynydd y Gymraeg.

3.2.9. Ein gweledigaeth ni yw corff hyrwyddo a elwir yn Cyngor y Gymraeg, a fydd yn arwain polisi, yn gyfrifol am orolwg strategol yn y maes, ac yn meddu ar statws uchel ymysg adrannau Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill.

3.2.10. Credwn y dylai Cyngor y Gymraeg fod yn gyfrifol am strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygiad y Gymraeg. Er mwyn gwneud hyn bydd angen iddo feddu ar arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol, y gwyddorau sy'n sylfaen i gynllunio felly, a dealltwriaeth fanwl o sefyllfa'r Gymraeg a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei hynt. Byddai'n tynnu ar waith Sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau eraill perthnasol, gan gynnwys esiamplau rhyngwladol megis Gwlad y Basg a Chatalonia. Yn y lle cyntaf bydd Cyngor y Gymraeg yn etifeddu ac yn gweithredu Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru a gyhoeddir fis Mawrth 2017, ond dichon y bydd angen iddi ei hailwampio a'i haddasu. Rhan allweddol yn hyn fydd maes addysg. Bydd Cyngor y Gymraeg yn cydweithio ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer twf addysg a hyfforddiant Cymraeg ar bob lefel, gan sicrhau ei bod yn unol â'r strategaeth gyffredinol sy’n cael ei ddatblygu. Cyfrifoldeb Adran Addysg Llywodraeth Cymru fydd gweithredu’r strategaeth addysg mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol drwy gyfrwng Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg.

3.2.11. Byddai Cyngor y Gymraeg yn gyfrifol am :

- Cynorthwyo sefydliadau a chyrff gyda gwelliant yn eu polisïau ac ymarferion iaith gan fynd ymhellach na'i ddyletswyddau statudol;
- Rhedeg prosiectau marchnata a hyrwyddo penodol i hyrwyddo'r Gymraeg, gan ddosrannu a chomisiynu gwaith gan eraill lle bo'n briodol;
- Cynnig cyngor a chymorth i sefydliadau ac asiantaethau cyhoeddus ac i gymdeithas sifig, yn enwedig y sector gwirfoddol, ynghylch arfer da a chynyddu defnydd o'r Gymraeg wrth wasanaethu'r cyhoedd ac yn eu gweinyddiad mewnol. Bydd yn gweithredu'n rhagweithiol i gryfhau'r Gymraeg yn y sector breifat ac yn arbennig yn annog ac yn helpu i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg;
- Datblygu prosiectau blaengar i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiol beuoedd, gyda phwyslais ar rai allweddol, yn enwedig y cartref, y teulu, y gymdogaeth ac ym meysydd technolegol o ran y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hefyd yn ystyried ac yn comisiynu cynigion am brosiectau gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat lle byddai hynny'n addas;
- Targedu adnoddau ar 6-10 o ardaloedd fel Ardaloedd Adfywio a Datblygu’r Gymraeg a llunio cynlluniau iaith cynhwysfawr i gynnal ac i ddatblygu twf ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd gan gefnogi symud cymunedau i fyny'r continwwm ieithyddol;
- Rhoi Cyngor i Weinidogion Cymru o ran sut i hyrwyddo'r Gymraeg;
- Gweithredu dyletswyddau presennol Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a sefydlwyd drwy adran 149 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;

- Gweithredu dyletswyddau presennol Panel Ymgynghori Comisiynydd y Gymraeg a sefydlwyd drwy adran 23 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Dwyn ynghyd cynrychiolwyr o'r holl sectorau sydd eisoes yn gweithredu polisïau o blaid y Gymraeg;
- Darparu cyngor i bob adran o Lywodraeth Cymru ynghylch llunio a gweithredu polisïau;
- Ymgorffori'r wybodaeth a'r ymarfer gorau parthed datblygu gwasanaethau Cymraeg;
- Gweithredu uned Canolfan Safoni Termau Genedlaethol a Chorff Cynllunio Ieithyddol, gyda staff arbenigol i fod yn gyfrifol am lunio map sosio-ieithyddol o Gymru;
- Cynnal prosiectau er mwyn gwella mynediad lleiafrifoedd at y Gymraeg
- Paratoi cyngor am hybu a gwarchod y Gymraeg, a chynlluniau tymor hir ar gyfer yr iaith fyddai â mewnbwn i holl bwyllgorau a holl adrannau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Drwy gymryd gorolwg strategol ar y maes bydd modd i'r corff hyrwyddo sicrhau bod yr holl ymdrechion o blaid y Gymraeg yn atgyfnerthu'i gilydd ac nad yw egni creadigol nac adnoddau yn cael eu gwastraffu drwy ddyblygu dianghenraid.
- Bydd paratoi rhaglen gynhwysfawr o wybodaeth am bwysigrwydd y Gymraeg, dwyieithrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol yn sylfaenol i'r agwedd hon o waith y corff.
- Rhan bwysig o waith Cyngor y Gymraeg fydd diffinio maes cyfrifoldeb y Mentrau Iaith, eu cynghori ynghylch eu gorchwylion a'u cyfleoedd a'u helpu i ddatblygu ym mhob dull a modd.
- Bydd angen i'r corff greu dulliau o ymgynghori â'r cyhoedd a thynnu ar arbenigedd yr holl ystod o gyrff sydd eisoes yn weithgar ym maes hyrwyddo'r Gymraeg.

3.2.11. Ceir rhagor o fanylion am strwythur ein Cyngor y Gymraeg arfaethedig yn ein papur trafod a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017[12].

## Fforddiadwyedd Comisiynydd y Gymraeg yn ogystal â chorff hybu ar wahân

3.2.12. Gwyddom fod y Llywodraeth yn rhoi llawer o bwyslais ar 'werth am arian' yn y papur gwyn. Wrth reswm, dadleuwn fod angen rheoleiddio cadarn er mwyn sicrhau bod gwerth iddo, a bod cyfuno dyletswyddau hybu a rheoleiddio yn golygu y bydd rhagor o hybu yn digwydd ar draul rheoleiddio. Gan ystyried pwysigrwydd y Safonau o ran newid patrymau defnydd, mae methiant i sicrhau rheoleiddio yn mynd i gynnig gwaeth gwerth am arian.

---

[12] http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Corff%20Hyrwyddo%20Cenedlaethol-3.pdf

3.2.13. Yn nhabl 1 y papur gwyn, mae'r Llywodraeth yn amlinellu cyllideb ei Chomisiwn arfaethedig, sy'n debyg iawn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a ddiddymwyd yn 2012. Dadleuwn fod y ffigyrau hynny yn profi bod modd fforddio dau gorff ar wahân, y Comisiynydd i reoleiddio a Chyngor y Gymraeg i hybu, gan ddefnyddio costau gweinyddu a chyllideb Bwrdd yr Iaith Gymraeg o flwyddyn 2011-12 fel tystiolaeth.

3.2.14. Yn 2011-12, roedd costau gweinyddu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn sylweddol uwch, mewn termau arian parod, na chyllideb gyfan Comisiynydd y Gymraeg eleni. Er bod paragraff 60 a thabl 1 y papur gwyn yn ei gwneud yn anodd cymharu rhwng y cyllidebau, gan eu bod yn eithrio rhai costau staffio, credwn ei bod dal yn glir bod hen gyllideb Bwrdd yr Iaith yn ddigonol i weinyddu dau gorff ar wahân.

3.2.15. Yn 2011-12, buodd Bwrdd yr Iaith yn gwario £4.427 miliwn[13] ar gostau cynnal y sefydliad, o gymharu â £3.015 miliwn fel cyfanswm cyllideb Comisiynydd y Gymraeg heddiw. Felly, hyd yn oed pe bai ddim ond dychwelyd i gostau 2011-12 Bwrdd yr Iaith mewn arian parod, byddai oddeutu £1.4 miliwn y flwyddyn ar gyfer cynnal corff hyrwyddo ar wahân - ffigwr sy'n dal yn uwch na chyfanswm cyllideb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol[14]. Wrth reswm, credwn fod angen llawer mwy o adnoddau na hynny i allu rheoleiddio a hyrwyddo'n iawn, ond ar y ffigyrau isel hynny, mae'n glir bod modd cynnal un corff hybu ac un corff rheoleiddio fel sefydliadau ar wahân. Mae'n werth nodi, er bod rhai manylion yn eu gwneud yn anodd cymharu, y buodd cyfanswm cyllideb Bwrdd yr Iaith yn 2011-12 yn llawer uwch na hynny, sef £13.673 miliwn.

### Sylwadau eraill

3.2.16. Credwn ei fod yn eironig bod y Llywodraeth, mewn sawl man yn y papur gwyn, yn rhoi cymaint o bwyslais ar greu cyfundrefn sy'n 'glir i bawb' ac yn 'siop un stop' ar gyfer y Gymraeg, ac eto yn cynnig gorfodi unigolion i gwyno wrth gyrff yn unigol yn lle cadw'r opsiwn iddynt gwyno'n syth wrth y Comisiynydd.

3.2.17. Ceir cyfeiriad arall at 'reoleiddio mewn ffordd gefnogol' ym mharagraff 82. Eto, mae'r sylw hwnnw yn anghofio profiad Bwrdd yr Iaith o arddel yr un agwedd, a'r ffaith bod cannoedd o gyrff eisoes wedi derbyn y dull reoleiddio yna dan Deddf Iaith 1993. Nid oes tystiolaeth yn y papur y bydd hynny yn cynyddu defnydd na darpariaeth gwasanaethau Cymraeg. I'r gwrthwyneb, mae profiad a rhwystredigaeth ein haelodau ar lawr gwlad yn glir nad yw'r dull 'cefnogol' o reoleiddio yn mynd i weithio.

## 3.3. Rhan 2 (paragraffau 84 – 131) - Canoli grym yn nwylo'r Llywodraeth, tanseilio atebolrwydd ac ail-greu Bwrdd yr Iaith

3.3.1 Mae'r rhan hon o'r papur yn seiliedig ar gynnig y Llywodraeth i gyfuno rheoleiddio a hyrwyddo o fewn yr un corff. Am y rhesymau a esbonnir uchod, nid ydym yn cytuno gyda'r cynigion hynny a gwrthodwn yr opsiynau yn rhan hon y papur gwyn.

3.3.2. O ran llywodraethiant, credwn fod angen sicrhau bod y Comisiynydd mwy annibynnol oddi wrth y Llywodraeth gan newid i system penodi, ariannu ac atebolrwydd i'r Cynulliad yn hytrach na'r Llywodraeth.

---

[13] Tudalen 5, Llythyr Cylch Gwaith Bwrdd yr Iaith 2011-12 http://gov.wales/docs/drah/publications/20110414remitlettertoWLB2011cym.pdf

[14] sef £1.1 miliwn - Tudalen 43, Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 2016-17 https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/08/2017-07-18-AR-and-Accounts-FINAL-in-Welsh.pdf

3.3.2. O ran ein corff hybu arfaethedig, Cyngor y Gymraeg, rydym wedi cynnig syniadau o ran atebolrwydd yn ein papur ar wahân.

3.3.4. Ym mharagraff 84, honnir y bydd cyllideb 'ychwanegol sylweddol', mae'n bwysig nodi bod y gyllideb yn llai na chyllideb Bwrdd yr Iaith yn 2011-12. Hefyd, honnir, y byddai'n gorff 'pwerus' er byddai gyda'r corff llai o allu defnyddio pwerau cosbi na Chomisiynydd y Gymraeg oherwydd y cynigion i wanhau'r system gwyno a diddymu rhai mathau o Safonau.

3.3.5. Ym mharagraff 93, dywedir bydd angen i'r corff 'datblygu polisi' ar gyfer 'monitro a gorfodi'. Fodd bynnag, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bolisi gorfodi yn barod - pam fod angen creu polisi arall? Mae'r cynnig hwn naill ai'n dangos nad yw Llywodraeth Cymru yn deall y system bresennol neu ei bod yn bwriadu ychwanegu at fiwrocratiaeth drwy ail-ddyfeisio'r olwyn. Yn yr un modd, mae pwerau cyfarwyddo Comisiynydd y Gymraeg eisoes yn bodoli ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae cynnwys cynnig i sefydlu'r pŵer naill ai'n dangos anwybodaeth y Llywodraeth neu fwriad i newid er mwyn newid.

3.3.6. Ym mharagraff 95, ceir geiriau gwag fel gorfodi ymgynghori'n eang – arfer na ddilynwyd gan y Llywodraeth ei hun wrth ddatblygu'r papur gwyn. Ac, mae'r gofyniad i gyhoeddi 'canlyniad unrhyw ymchwiliadau' eisoes yn bodoli ym Mesur y Gymraeg 2011 o ran cyhoeddi cofrestr, felly nid yw'n glir beth yw pwrpas crybwyll y cynigion hyn yn y papur. Awgrymwn efallai y dylai swyddogion y Llywodraeth ail-ddarllen y ddeddfwriaeth bresennol.

3.3.7. Fel dywedwyd yn flaenorol, credwn na ddylai fod terfyn ar y dirwyon mae'r Comisiynydd yn gallu gosod ar gyrff gan fod nifer o gyrff sydd gyda throsiant neu elw sylweddol iawn lle na fyddai dirwy cyn lleied â £5,000 yn ddigonol fel cosb neu gam ataliol.

3.3.8. Ym mharagraff 101, cynigir rhoi hyd yn oed rhagor o bwerau penodi i Lywodraeth Cymru. Mae'n siomedig, ond nid yn annisgwyl, i weld Llywodraeth Cymru eto'n awgrymu mai nhw ddylai cael rhagor o rymoedd dros brosesau a sefydliadau sydd i fod i weithredu'n annibynnol. Hyd y gwelwn ni, does neb wedi argymell hyn, a does dim rheswm dros y cynnig, ond fel y rhan fwyaf o'r papur gwyn, nid yw'n ymddangos bod ots gan y Llywodraeth bod diffyg tystiolaeth tu ôl i'w gynigion.

## 3.4. Rhan 3 yn anghofio'r defnyddiwr

3.4.1. Pryderwn nad yw'r cynigion yn y rhan hon o'r papur gwyn yn llwyddo cynnig yr ymatebion cywir gan eu bod yn seiliedig ar anwybodaeth a chamddealltwriaeth o sawl mater sylfaenol. Mae'n debyg mai rhan fawr o'r broblem yw'r diffyg tystiolaeth am agweddau'r cyhoedd tuag at y system bresennol a ddarperir yn y papur gwyn. Drwy ffocysu ar hynny, byddai'r opsiynau a gynhigir yn y papur gwyn yn llawer iawn gwell a mwy datblygedig.

3.4.2. Honnir ym mharagraff 134 bod 'y system yn un anodd i'w deall, ei gweithredu a'i monitro', ond nid oes sylfaen tystiolaeth yn cael ei chynnig o safbwynt y defnyddiwr. Mae adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg yn awgrymu bod pobl yn teimlo bod cyfundrefn yn gwella darpariaeth gwasanaethau'n Gymraeg. Mae perygl mawr felly bod gwanhau rheoleiddio yn mynd i achosi llai o ddefnydd o, a darpariaeth yn, y Gymraeg.

3.4.3. Gwrthwynebwn yn gryf y ddadl a geir ym mharagraff 137. Dyw symud y system yn ôl o 'orfodi' i 'unioni' a 'gwella' ddim yn gwneud dim synnwyr ar gyfer cyrff sydd wedi bod â chynllun iaith dan system wirfoddol neu orfodol Deddf Iaith 1993 - ni fydd yn cymell unrhyw symud ymlaen. I'r gwrthwyneb, byddai cynnig o'r fath yn creu perygl difrifol y byddai camau mawr yn ôl o ran darpariaeth. Mae symud i system reoleiddio 'ysgafn' yn dychwelyd i system llawer yn debycach i Ddeddf Iaith 1993 sy'n gyfrifol am y defnydd isel o wasanaethau y mae'r cyflwyniad i'r papur gwyn yn cwyno amdano. Y prif reswm

mae nifer o gyrff eisiau system reoleiddio 'ysgafn' a gynhigir yn y papur gwyn yw er mwyn peidio gorfod darparu cymaint o wasanaethau Cymraeg a pheidio ag wynebu risg eu bod yn atebol am fethu â chydymffurfio.

3.4.4. Yn y rhestr o brif ystyriaethau ym mharagraff 139, nid oes sôn am brofiad pobl ar lawr gwlad. Yn ogystal, mae datganiad arall bod 'gweithdrefnau gorfodi presennol' yn 'drwm' ac 'yn araf'. Fodd bynnag, nid oes cymhariaeth gyda chyfundrefn Deddf Iaith 1993 o ran cyflymder y broses. Ac, wrth reswm, dyw'r prosesau gorfodi ddim yn broblem os nad oes diffyg cydymffurfiaeth.

3.4.5. Mae paragraff 143 yn gwneud cyfeiriad prin at Deddf Iaith 1993, ond, yn ffeithiol anghywir. Nid yw'n wir i ddweud 'nad oedd unrhyw ffordd o orfodi cyrff i fodloni ymrwymiadau' eu cynlluniau iaith. Roedd proses gorfodi yn bodoli dan adran 20 y Ddeddf. Fodd bynnag, dim ond unwaith a ddefnyddiwyd y grym hwnnw a hynny wedi i'r penderfyniad gael ei wneud i ddiddymu Bwrdd yr Iaith. Mae'r enghraifft yn ddefnyddiol gan eu bod yn dangos mai dewis y Bwrdd oedd peidio â defnyddio'r grym gorfodi. Dadleuwn mai rhai o'r rhesymau oedd:

- diffyg annibyniaeth y Bwrdd o'r Llywodraeth
- diffyg atebolrwydd y Bwrdd yn ddemocrataidd i ddeddfwrfa
- cyfuno rheoleiddio a hybu o fewn un corff a olygodd nad oedd y gwaith rheoleiddio yn cael ei flaenoriaethu

3.4.6. Mae'r rhestr o broblemau gyda'r Safonau fel y maen nhw ym mharagraffau 145 a 146 yn eironig: gweithredu gwael gan Lywodraeth Cymru o'r ddeddfwriaeth gynradd bresennol sy'n gyfrifol am bron pob un o'r problemau a restrir, yn hytrach na geiriad y ddeddfwriaeth ei hunan.

| **Problem** | Cyfrifoldeb | Datrysiad(au) |
|---|---|---|
| **Cynifer o Safonau** | Ym mis Chwefror 2013, gwrthododd Llywodraeth Cymru dderbyn set o safonau arfaethedig a argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyfanswm o 37 Safon). Dywedodd y Llywodraeth ar y pryd: *"Deuthum i'r penderfyniad hwn am sawl rheswm, gan gynnwys fy mhryder fod y model … y Comisiynydd yn rhy gymhleth...Credaf hefyd na [fyddant yn]…rhoi hawliau ieithyddol clir i ddinasyddion"*<br>Hyd y gwyddom, penderfyniad y Llywodraeth oedd peidio â chydweithio ar eiriad y Safonau gyda'r Comisiynydd mewn ffordd ystyrlon wedi hynny.<br>Ar 30ain Mawrth 2016, daeth Safonau'r Gymraeg (rhif 1) (cyfanswm o 176 Safon) i rym ar gyfer awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. | Llai o rym yn nwylo'r Llywodraeth a gweision sifil nad ydynt â'r arbenigedd i lunio a gosod Safonau<br><br>Hawliau sylfaenol a/neu gyffredinol ar wyneb y Mesur i gyd-fynd â'r Safonau |
| **Diffyg eglurder gan fod cynifer o Safonau** | Ym mis Chwefror 2013, gwrthododd Llywodraeth Cymru dderbyn set o safonau arfaethedig a argymhellwyd gan Gomisiynydd y | Llai o rym yn nwylo'r Llywodraeth a gweision sifil nad ydynt â'r arbenigedd i lunio a gosod Safonau |

| | | |
|---|---|---|
| | Gymraeg (cyfanswm o 37 Safon). Dywedodd y Llywodraeth ar y pryd: *"Deuthum i'r penderfyniad hwn am sawl rheswm, gan gynnwys fy mhryder fod y model … y Comisiynydd yn rhy gymhleth...Credaf hefyd na [fyddant yn]…rhoi hawliau ieithyddol clir i ddinasyddion"*<br>Hyd y gwyddom, penderfyniad y Llywodraeth oedd peidio â chydweithio ar eiriad y Safonau gyda'r Comisiynydd mewn ffordd ystyrlon wedi hynny.<br>Ar 30ain Mawrth 2016, daeth Safonau'r Gymraeg (rhif 1) (cyfanswm o 176 Safon) i rym ar gyfer awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. | Hawliau sylfaenol a/neu gyffredinol ar wyneb y Mesur i gyd-fynd â'r Safonau |
| **Ansicrwydd am ddehongliad y Safonau** | Toriadau o 10% i gyllideb y Comisiynydd dros nifer o flynyddoedd yn ei gadael heb adnoddau i wneud y gwaith | Mwy o annibyniaeth ariannol gan y Comisiynydd<br><br>Hawliau sylfaenol a/neu gyffredinol ar wyneb y Mesur i gyd-fynd â'r Safonau |
| **Cymhlethdod** | Ym mis Chwefror 2013, gwrthododd Llywodraeth Cymru dderbyn set o safonau arfaethedig a argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyfanswm o 37 Safon). Dywedodd y Llywodraeth ar y pryd: *"Deuthum i'r penderfyniad hwn am sawl rheswm, gan gynnwys fy mhryder fod y model … y Comisiynydd yn rhy gymhleth...Credaf hefyd na [fyddant yn]…rhoi hawliau ieithyddol clir i ddinasyddion"*<br>Hyd y gwyddom, penderfyniad y Llywodraeth oedd i peidio â chydweithio ar eiriad y Safonau gyda'r Comisiynydd mewn ffordd ystyrlon wedi hynny.<br>Ar 30ain Mawrth 2016, daeth Safonau'r Gymraeg (rhif 1) (cyfanswm o 176 Safon) i rym ar gyfer awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. | Llai o rym yn nwylo'r Llywodraeth a gweision sifil nad ydynt â'r arbenigedd i lunio a gosod Safonau<br><br>Hawliau sylfaenol a/neu gyffredinol ar wyneb y Mesur i gyd-fynd â'r Safonau |

### Gwrthwynebu cynigion i wanhau'r Safonau – paragraff 151

3.4.7. Ym mharagraff 152, rydym yn rhestru nifer o syniadau sydd yn peryglu cadernid y system bresennol. Gwrthwynebwn y syniadau hynny felly, ac yn benodol y cynigon i: ddileu neu ddiwygio Safon 'os yw'n gostus i weithredu'; a rhoi mwy o hyblygrwydd i gyrff ddehongli'r Safonau.

3.4.8. Nodwn nad oes angen deddfwriaeth i ddiwygio neu adolygu'r Safonau.

## Hawliau i Gyd-fynd â Safonau

3.4.9. **Argymhellwn ddilyn opsiwn sy'n debyg i opsiwn 5 yn y papur gwyn o sefydlu hawliau ar wyneb y Mesur, ond i gyd-fynd â'r Safonau, nid yn eu lle.** Eto, mae'n destun siom gweld cyn lleied o ystyriaeth a geir yn y papur gwyn o'r opsiwn, gan ystyried y gefnogaeth eang tu ôl y cysyniad gan fudiadau ac arbenigwyr, megis mudiadau Dathlu'r Gymraeg a'r bargyfreithiwr Gwion Lewis. Credwn y byddai hawliau ar wyneb y Mesur yn cynnig:

- Rhagor o eglurder i'r cyhoedd ac felly hyder i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cymhelliant i gyrff wella gan y byddai'n gosod disgwyliadau uwch nad ydynt yn gyfyngedig i fanylion y Safonau yn unig
- Lleihau ansicrwydd gan y byddai gan ddefnyddwyr y sicrwydd bod hawl cyffredinol neu sylfaenol yn bodoli a threfn reoleiddio tu ôl iddynt

3.4.10. Rydym yn gosod allan yn llawer mwy helaeth yr opsiynau yn hyn o beth yn ein papur "Cryfhau Hawliau i'r Gymraeg" [15] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016. Dadleuasom y canlynol yn adran 7 y ddogfen:

### "Hawliau Cyffredinol i'r Gymraeg

Pwrpas hawl cyffredinol i'r Gymraeg, yn debyg i'r rhyddid cyffredinol i siarad yr iaith a sefydlwyd gan adran 111 y Mesur, fyddai:

a. cynnig eglurder llawer iawn gwell i'r cyhoedd, ac o ganlyniad, hyder i ddefnyddio'r Gymraeg

b. darparu egwyddor i yrru'r Safonau wrth eu llunio a'u datblygu

c. llenwi'r mannau gwan yn narpariaethau'r Safonau, megis cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyd-destunau newydd, technoleg newydd a ffurf darparu'r gwasanaethau, megis sefydlu is-gwmnïau neu allanoli

d. gwrthbwys i'r adrannau am 'resymoldeb a chymesuredd' yn y Mesur er mwyn i'r Safonau gael eu llunio gyda defnydd o'r Gymraeg a hawliau'r cyhoedd fel canolbwynt iddynt

e. caniatáu i hawliau iaith gryfhau ac esblygu heb fod angen deddfu neu basio rheoliadau'n barhaus

f. adeiladu ar y rhyddid i siarad yn adran 111 y ddeddfwriaeth bresennol

g. sicrhau nad yw hawliau iaith yn cael eu gwadu mewn cyd-destun yn anfwriadol oherwydd nad yw'r sector neu'r corff wedi eu henwi

h. darparu egwyddor a fyddai'n gyrru gwelliant parhaus sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg – rhywbeth sydd wedi'i golli o'r hyn oedd mewn cynlluniau iaith

i. cynorthwyo cyrff, Comisiynydd y Gymraeg, Tribiwnlys y Gymraeg a'r cyhoedd wrth ddehongli'r Safonau

Mae nifer o fodelau posib er mwyn datgan hyn a chryfhau'r sefyllfa. Gweler isod rai ohonynt:

---

[15] http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/CyIG%20Cryfhau%20Mesur%20A4(1).pdf

**Mesur Iaith 2007 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**[10]

*"Yr hawl i Gael Gwasanaethau yn Gymraeg*

*(1) Mae gan bob person yng Nghymru yr hawl i gael gwasanaethau drwy’r Gymraeg boed y gwasanaethau hynny am dâl ai peidio.*

*(2) Yn unol ag adran (1) uchod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gymryd pob cam priodol i ddarparu’u gwasanaethau yn Gymraeg.*

*..."*

**Gwelliant a gyflwynwyd i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

*"I ychwanegu Adran newydd—*

*"[ ]Sefydlu hawliau cyffredinol i fynd gyda’r safonau*

*(1) Mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.*

*(2) Nid yw is-adran (1) uchod yn gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r dyletswyddau hynny o dan Ran 4 o'r Mesur hwn"*

**Gwlad y Basg: Erthygl 5 a 6, Cyfraith Sylfaenol rhif 10, 24ain Tachwedd 1982**

| | |
|---|---|
| **1. Mae gan holl ddinasyddion Gwlad y Basg yr hawl i fedru ac i ddefnyddio'r [Fasgeg], ar lafar ac yn ysgrifenedig.** | **1. Euskal Herritar guztiek dute hizkuntza ofizialak hitzez nahiz idatziz ezagutzeko eta erabiltzeko eskubide.** |
| **2. Mae’r hawliau ieithyddol sylfaenol canlynol sydd gan ddinasyddion Gwlad y Basg yn cael eu cydnabod:** | **2. Euskal Herritarrei honako funtsezko hizkuntza-eskubide hauek aitortzen zaizkie:** |
| **Mewn perthynas â'r Weinyddiaeth a Sefydliadau Eraill,**<br><br>**a) Yr hawl i gynnal cysylltiadau yn y Fasgeg ... ar lafar a/neu yn ysgrifenedig â'r Weinyddiaeth ac unrhyw gorff neu sefydliad swyddogol sydd wedi'i leoli yn y Gymuned Ymreolaethol.** | **a) Arduralaritzarekin eta Autonomia-Elkartean kokatutako edozein Ihardutze-Sail edo Erakunderekin harremanak hitzez eta/edo idatziz euskeraz edo gaztelaniaz izateko eskubidea.**<br><br>**b) Ikasketak bi hizkuntza ofizialetan egiteko eskubidea.**<br><br>**c) Aldizkariak, irrati eta telebista eta beste adierazpideetako emankizunak euskeraz jasotzeko eskubidea.**<br><br>**d) Lanbidezko, lanezko, politikazko eta sindikaritzazko ekintzetan** |

| | |
|---|---|
| **b) Yr hawl i dderbyn neu'r hawl i gael eu dysgu yn [y Fasgeg]**<br><br>**c) Yr hawl i dderbyn cyhoeddiadau, rhaglenni radio a theledu a ffurfiau eraill o gyfathrebu yn y Fasgeg.**<br><br>**d) Yr hawl i ddatblygu gweithgareddau undebol, proffesiynol, gwaith a gwleidyddol yn y Fasgeg.**<br><br>**e) Yr hawl i fynegi eich hun yn y Fasgeg mewn unrhyw gyfarfod.**<br><br>**3. Bydd yr awdurdodau cyhoeddus yn gwarantu y caiff yr hawliau hyn eu gweithredu, yn ardaloedd tiriogaethol y Gymuned Ymreolaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn weithredol.**<br><br>***Erthygl 6***<br><br>**1. Bydd hawl pob dinesydd i ddefnyddio'r [Fasgeg] wrth ymwneud o fewn ardaloedd y Gymuned Ymreolaethol, ac i gael eu trin yn [y Fasgeg], yn cael ei gydnabod. I'r perwyl hwn, cymerir mesurau perthnasol a darperir y dulliau angenrheidiol er mwyn sicrhau y gweithredir yr hawl hwn yn gynyddol.** | **euskeraz aritzeko eskubidea.**<br><br>**e) Edozein bilkuratan euskeraz egiteko eskubidea.**<br><br>**3. Eskubide hauek eraginkorrak eta benetakoak izan daitezen, herri-agintesailek beroien erabilpena bermatuko dute.**<br><br>**ATALA 6**<br><br>**Herritar guztiei, Autonomia Elkarteko lur-eremuan Herri-Arduralaritzarekin izan ditzaten harremanetan euskera nahiz gaztelania erabiltzeko eta bakoitzak aukera dezan hizkuntza ofizialean harrera egin dakioneko eskubidea aitortzen zaie. Horretarako, behar daitezen neurriak hartuko dira eta eskubide honen erabilpena arian-arian bermatzeko beharrezko gerta daitezen eskuarteak ebatziko.** |

**Catalonia: Erthyglau 3 a 4, Deddf Polisi Iaith, Rhif 1, 1998**

| | |
|---|---|
| **Gellir defnyddio'r Gatalaneg ... [fel iaith swyddogol] yn ddiwahân gan ddinasyddion ym mhob gweithgaredd preifat a chyhoeddus yn ddieithriad. Mae gan weithdrefnau cyfreithiol a gynhelir yn [y Gatalaneg] .... cyn belled ag y mae'r iaith a ddefnyddir yn y cwestiwn,** | **El català és lallengua oficial de Catalunya ... a llengües oficials, poden ésser emprades indistintament pels ciutadans i ciutadanes en totes les activitats públiques i privadessense discriminació. Els actes jurídics fets en** |

| | |
|---|---|
| **ddilysrwydd ac effaith llawn.**<br><br>**Mae gan bawb yng Nghatalonia'r hawl:**<br><br>A) i fod yn rhugl yn [y Gatalaneg]<br><br>B) i fynegi eu hunain yn [y Gatalaneg], ar lafar neu yn ysgrifenedig, yn eu cysylltiadau yn ogystal ag mewn gweithdrefnau preifat a chyhoeddus<br><br>C) i gael eu gwasanaethau yn [y Gatalaneg] yn y modd a bennir gan y Ddeddf hon<br><br>Ch) i ddefnyddio’r [Gatalaneg] yn rhydd ym mhob maes<br><br>D) i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail yr iaith swyddogol a ddefnyddiant | **qualsevoldeles dues llengües**<br><br>**oficials tenen, pel que fa a la llengua, plena validesa i eficàcia.**<br><br>**A Catalunya tothom té dret a :**<br><br>**a) Conèixer lesdues [el català].**<br><br>**b) Expressar-se enqualsevol de [el català], oralment i perescrit, en les relacions i els actes públics i**<br><br>**privats.**<br><br>**c) Ésser atès en qualsevol de [el català] en els termes que aquesta Llei estableix.**<br><br>**d) Emprar lliurement qualsevol  [el català] tots els àmbits.**<br><br>**e) No ésser discriminat per raó de la llengua oficial que empra.** |

**Hawliau Addysg**

Mae'n werth nodi bod yr un ddeddfwriaeth iaith yng Ngwlad y Basg a Chatalonia yn delio â hawliau i addysg yn yr iaith frodorol yn ogystal â'r hawl cyffredinol i ddefnyddio'r iaith frodorol.

| | |
|---|---|
| *Erthygl 20 – deddf addysg Catalonia:*<br><br>**1.Mae’r Gatalaneg, fel priod iaith Catalonia, hefyd yn iaith addysg, ar bob lefel ac ym mhob math o addysgu.**<br><br>**2.Bydd sefydliadau addysg ar bob lefel yn peri mai'r Gatalaneg yw'r cyfrwng arferol i fynegi gweithgareddau addysgu a gweinyddol, yn fewnol ac yn allanol.** | **1. El català, com a llengua pròpia de Catalunya, ho és també de l'ensenyament, en tots els nivells i les modalitats educatius.**<br><br>**2. Els centres d'ensenyament de qualsevol grau han de fer del català el vehicle d'expressió normal en llurs activitats docents i administratives, tant les internes com les externes.** |

| | |
|---|---|
| *Erthygl 21 – Catalonia* | |
| **1. Y Gatalaneg ddylai gael ei defnyddio fel y cyfrwng addysgu a dysgu fel arfer mewn addysg nad yw'n addysg prifysgol** | **1. El català s'ha d'utilitzar normalment com a llengua vehicular i d'aprenentatge en l'ensenyament no universitari.** |
| *Erthygl 22 – addysg uwch Catalonia* | |
| Mewn colegau addysg bellach a phrifysgolion, mae gan y staff a'r myfyrwyr yr hawl i fynegi eu hunain, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn yr iaith swyddogol o'u dewis | **En els centres d'ensenyament superior i universitari, el professorat i l'alumnat tenen dret a expressar-se en cada cas, oralment o per escrit, en la llengua oficial que prefereixin.** |
| *Erthygl 15 – Gwlad y Basg* | |
| **Cydnabyddir hawl yr holl fyfyrwyr i gael eu haddysgu...yn y Fasgeg...ar y lefelau addysgol gwahanol** | **Ikasle guztiei, hezkuntza maila ezberdinetan, irakaskuntza euskeraz eta gaztelaniaz hartzeko eskubidea aitortzen zaie.** |
| **I'r perwyl hwn bydd y Senedd a'r Llywodraeth yn mabwysiadu'r mesurau angenrheidiol hynny a fydd yn gogwyddo tuag at ehangu cynyddol yn nwyieithrwydd system addysg Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg.** | **Horretarako Legebiltzarrak, edo hala badagokio Jaurlaritzak, elebitasuna arian-arian Euskal Herriko Autonomia-Elkarteko hezkuntza-erapidetza osora hedatu dedineko xedezko neurri egokiak hartuko ditu.** |

**3.4.11. Argymhellwn felly bod gwerth i'r Llywodraeth ystyried sut gellid ychwanegu hawliau cyffredinol neu sylfaenol i'r ddeddfwriaeth bresennol fel bod modd iddynt gyd-fynd â'r Safonau.**

3.4.12. Ym mharagraff 160 a 161, ceir rhesymeg y Llywodraeth dros wrthod y syniad o osod rhai hawliau ar wyneb y Mesur. Credwn fod y rhesymau a roddir yn y papur yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o'r syniad:

- Mae'r papur gwyn yn awgrymu nad oes modd i hawliau o'r fath gynnwys unrhyw gydnabyddiaeth o resymoldeb neu gymesuredd, ond mae'n hynny'n gamddealltwriaeth o'r cysyniad, fel y gwelir uchod mae'n bosib ystyried hynny fel rhan o unrhyw welliant i'r Mesur presennol
- Ni fyddai'n rhaid gwneud eithriadau o reidrwydd, mae popeth yn dibynnu ar eiriad a strwythur
- Honnir y byddai system o fath yn gymhleth, ond o bersbectif y cyhoedd gallai fe fod yn llawer symlach ei deall ac nid oes tystiolaeth bod ystyriaeth go iawn wedi bod o'r cysyniad yn y papur

### Dyletswyddau Cynllunio Ieithyddol

3.4.13. Credwn fod cynigion y Llywodraeth ym mharagraff 180 i ddiddymu rhai Safonau a chreu dyletswyddau cynllunio ieithyddol yn anghywir oherwydd ei bod yn:

- Cymhlethu'r system bresennol drwy ychwanegu haen arall o is-reoliadau
- Lleihau'r pwerau cosbi i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer dyletswyddau pwysig megis cynllunio'r gweithlu
- Creu system llai eglur gan y byddai'n golygu y byddai 3 chyfundrefn yn bodoli sef cynlluniau iaith, Safonau a dyletswyddau cynllunio ieithyddol

### Gwneud, gosod, gweithredu a gorfodi Safonau

3.4.14. Anghytunwn yn llwyr gyda chynnig y Llywodraeth i ganoli grym o ran ymgynghori ar, gwneud a gosod Safonau. Credwn y dylai Comisiynydd y Gymraeg barhau i osod y Safonau a chael mwy o rôl wrth eu llunio am sawl rheswm:

- Nid yw'r arbenigedd na chapasiti gan y gwasanaeth sifil i gyflawni'r dyletswyddau hynny;
- Mae rhan helaeth o'r problemau gyda'r system bresennol yn deillio o gamgymeriadau gweision sifil, megis gwrthod Safonau drafft Comisiynydd y Gymraeg yn 2013 a drafftio sy'n methu â deall yr angen am Safonau sy'n adlewyrchu anghenion cyrff sy'n gweinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg;
- Gan ystyried bod diffygion wedi eu hachosi gan weision sifil, mwy o ymwneud gan y Comisiynydd wrth lunio a gosod y Safonau sydd ei angen nid llai
- Mae ansicrwydd y Llywodraeth ym mharagraffau 200 i 202 o ran gosod Safonau arnoch chi eich hunain yn amlygu gwallgofrwydd y cynnig bod y Llywodraeth yn cymryd cyfrifoldebau dros osod y Safonau

3.4.15. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio ein bod yn cytuno y dylai'r Cynulliad basio'r Safonau drwy brosesau democrataidd ein deddfwrfa genedlaethol, gan fod hynny'n osgoi un o wendidau Bwrdd yr Iaith oedd yn gallu llunio a chytuno â chynlluniau iaith tu ôl i ddrysau caeedig.

### Y System Gwyno

3.4.16. Ceir cynifer o honiadau di-sail a sylwadau diwerth yn adran hon y papur y byddai'n ormodol i ni geisio cywiro bob un. Ond mae'n rhaid dweud mai nawddoglyd a sarhaus yw honni, ar sail profiad 9 mis o'r system bresennol, nad yw'r un ymchwiliad gan y Comisiynydd yn 'ddifrifol'. O ystyried y gŵyn a

wnaethom ynghylch diffyg gwersi nofio Cymraeg, a gyfeirir ati yn yr adran hon, mae'n rhaid dweud ei fod yn anodd credu bod Llywodraeth Cymru yn credu bod methiant cyrff i ddarparu gwersi nofio i blant yn bwysig. Mae'n codi cwestiynau eto am broffesiynoldeb awduron y papur gwyn.

3.4.17. Rydym yn gwrthwynebu'n gryf holl gynigion ar gyfer y system gwyno, ond yn enwedig y cynigion i: gynnal ymchwiliadau i mewn i achosion 'difrifol' yn unig; a diddymu'r hawl i bobl gwyno'n syth at Gomisiynydd y Gymraeg. Gwrthwynebwn y cynigion oherwydd bod trefn gyda hawl i gwyno'n uniongyrchol ymhob achos:

- Yn well o ran yr angen am system mor hwylus â phosibl i'r defnyddiwr ddefnyddio, gan ystyried y diffyg grym sydd gan bobl gyffredin o gymharu â chyrff a chwmnïau;
- Yn llawer mwy hygyrch na'r hen gyfundrefn gan fod modd gwneud cwynion yn syth at y Comisiynydd drwy nifer o ddulliau megis y cyfryngau cymdeithasol ac e-bost;
- Bod cwyno wrth y Comisiynydd yn gyntaf yn golygu bod 'stop un siop' ar gyfer achwynwyr sy'n syml ei ddeall;
- Yn golygu llawer llai o faich ar yr unigolyn, gan fod modd iddynt ddibynnu ar waith y Comisiynydd;
- Llawer llai o gyfleodd i gyrff ddrysu pobl drwy, er enghraifft, addo bod cwyn yn mynd i gael ei ddatrys, heb lygad barcud rheoleiddiwr annibynnol;
- Yn sicrhau bod pob cwyn dilys yn cael ei thrin o ddifrif yn wahanol iawn i'r gyfundrefn dan Ddeddf Iaith 1993;
- Yn cydnabod y ffaith bod pob cwyn yn ddifrifol os yw rhywun wedi cymryd yr amser a'r ymdrech i gwyno yn y lle cyntaf;
- Yn galluogi'r Comisiynydd ystyried yr holl ystod o gamau gorfodi ar gyfer pob cwyn ddilys;
- Yn galluogi'r Comisiynydd i ddefnyddio ei ddisgresiwn wedi ymchwilio i'r ffeithiau yn lle gorfod gwneud penderfyniad o ran p'un ai i ymchwilio ai peidio fel dan system Deddf Iaith 1993;
- Y system yn fwy tebygol o sicrhau cydymffurfiaeth gan fod cyrff yn agored i gamau gorfodi ar gyfer rhagor o gwynion;
- Nifer fawr o sefyllfaoedd, megis yn y gweithle neu berthynas agos gyda chorff, lle mae cwyno'n ddienw yn bwysig;
- Rhoi'r opsiwn i'r defnyddiwr gwyno wrth y corff neu'r Comisiynydd yn golygu grymuso nhw i allu sy'n penderfynu ar sut i ddelio â'r gwyn gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau.

3.4.18. Rydym ar ddeall bod y Llywodraeth yn pryderu am hyd a baich y system gwyno, **argymhellwn felly y dylid, yn lle symud ymlaen gyda chynigion annoeth y papur gwyn, sefydlu'r hawl i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad byrrach mewn achosion lle nad oes anghytundeb rhwng partïon ynglŷn â ffeithiau'r achos.**

3.4.20. O ran ymchwiliadau a gynhelir gan y Comisiynydd a'r pwerau gorfodi, credwn y dylid cadw'r drefn fel y mae heblaw am ddiddymu'r terfyn ar lefel y ddirwy y gall y Comisiynydd eu gosod

## Rhan 4 - ymgais i guddio bwriad i beidio ymestyn Safonau i'r sector preifat

3.5.1. Mae cynigion a chwestiynau'r Llywodraeth yn y rhan hon o'r papur gwyn yn anonest ac yn gamarweiniol – maen nhw'n ceisio ymddangos fel pe bai bwriad i ymestyn y Safonau i ragor o gyrff a chwmnïau, ond mewn gwirionedd effaith y cynigion byddai gwneud hynny'n llai tebygol.

3.5.2. Credwn fod y cynigion yn ei gwneud yn llai tebygol y caiff y Safonau eu hymestyn oherwydd bod:

- Rhoi rheolaeth lwyr i'r Llywodraeth dros bryd i gychwyn y broses o lunio Safonau ar gyfer sector o gyrff, sydd wedi yn dibynnu'n llwyr ar fympwy Gweinidog unigol yn lle anghenion defnyddwyr y Gymraeg;
- Dileu bodolaeth unrhyw restr o gategorïau o gyrff ar wyneb y Mesur fel nad oes sicrwydd neu ddisgwyliad y caiff rhagor o gyrff eu cynnwys o dan y Safonau

3.5.3. Gwrthwynebwn yn gryf polisi'r Llywodraeth fel yr amlinellir ym mharagraff 245 o'r papur gwyn. Yn wir, os yw'r Llywodraeth o ddifrif am hybu'r Gymraeg ym mhob maes bywyd, dylai fod yn flaenoriaeth i osod Safonau ar gyrff megis banciau, archfarchnadoedd, cwmnïau ffôn symudol a siopau'r stryd fawr. Mae methiant i gymryd safiad clir o blaid hynny yn dystiolaeth ddiamheuol mai geiriau gwag yw'r rhethreg hynny yn y papur gwyn

3.5.4. **Argymhellwn felly yn lle cynigion y Llywodraeth yn y papur gwyn y dylid ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd:**

- **gan enwi ar wyneb y Mesur banciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr**
- **gan sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ddod â holl gyrff y sector breifat o fewn y gyfundrefn Safonau**

  **Dylai fod rhestr o gategorïau o gyrff ar wyneb y Mesur y gellid eu cynnwys dan y gyfundrefn Safonau gydag amserlen sy'n sicrhau y bydd Safonau yn dod i rym o fewn y sectorau hynny. Dylai fod pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ychwanegu at y categorïau hynny yn ogystal.**

3.5.5. Rydym hefyd yn credu y dylai'r Llywodraeth ystyried gosod, fel blaenoriaeth tymor byr, Safonau ar gyff a chwmnïau darlledu, megis gorsafoedd radio a theledu masnachol, er mwyn cynyddu eu darpariaeth Gymraeg. Byddai rhaid dileu'r adran yn y Mesur presennol i alluogi hyn ond rydym ar ddeall y bydd hynny'n bosib wedi i Deddf Cymru 2017 ddod i rym.

## 4.Cynigion i'r Llywodraeth ar y ffordd ymlaen

4.1. Gan ystyried ei bod yn amlwg nad oes consensws ynghylch cynigion y papur gwyn, hoffem gynnig dwy ffordd ymarferol ymlaen i'r Llywodraeth o ran ei ddeddfwriaeth iaith: rhoi'r papur gwyn yn y bin a gwneud popeth posib i wella gweithrediad y system o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol; a dechrau o'r dechrau gyda'r papur gwyn, a dod yn ôl gyda phapur newydd pan fo rhywbeth gwerth chweil gan y Llywodraeth i'w gynnig.

### 4.3. Rhoi'r papur gwyn yn y bin a gwella gweithredu ar y system bresennol

4.3.1. O ran gweithredu o fewn y system bresennol, **hoffem argymell nifer o opsiynau o ran gwella'r sefyllfa heb ddeddfu**:

i) **Gwella a chyflymu'r broses gosod Safonau, drwy lunio rheoliadau ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg,** gyda memorandwm dealltwriaeth sy'n sail ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth ar lunio'r rheoliadau. Byddai hyn yn golygu bod mwy o arbenigedd ac adnoddau ynghlwm â'r broses o lunio'r Safonau, a byddai'n osgoi oedi.

ii) **Cydweithio gwell rhwng y Llywodraeth a Chomisiynydd y Gymraeg drwy gynnal Ymchwiliad Safonau sydd hefyd yn ymgynghoriad cyhoeddus** ar reoliadau drafft ar gyfer y sector dan sylw, er mwyn osgoi ymgynghori dwywaith.

iii) **Gwella gweithrediad y gyfundrefn gwyno drwy sefydlu protocol newydd** rhwng Comisiynydd y Gymraeg a chyrff ynghylch y system gwyno. Dylai'r protocol (i) osgoi dyblygu gwaith, (ii) anelu at roi gwybod i gyrff am gwynion yn gynnar, a (ii) ei gwneud yn gliriach i'r cyhoedd bod hawl i gwyno wrth y corff neu'r Comisiynydd.

### 4.4. Dechrau o'r Dechrau – Cynigion gwerth chweil

4.4.1. Wrth gynigion gwerth chweil mewn papur gwyn, golygwn mabwysiadu'r cynigion canlynol:

i. Sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio’r Gymraeg i gyd-fynd â'r Safonau er mwyn sicrhau bod cyrff yn gwella yn barhaus o ran darparu gwasanaethau, llenwi'r mannau gwan anochel a ddaw yn sgil y Safonau, a sicrhau bod hawliau pobl i'r Gymraeg yn ddealladwy

ii. Ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

   a. gan enwi ar wyneb y Mesur banciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr

   b. sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ychwanegu holl gyrff y sector breifat fel categorïau o berson y gellid eu hychwanegu at Atodlen 8 y ddeddfwriaeth

iii. Sicrhau mai penodiad annibynnol, dan ofal y Cynulliad, yw'r Comisiynydd; a sicrhau bod ganddo annibyniaeth cyllidol oddi wrth y Llywodraeth

iv. Sefydlu Cyngor y Gymraeg a chanddo gyllideb a chyfrifoldeb i hyrwyddo a hybu’r Gymraeg fel corff annibynnol o'r Llywodraeth a'r Comisiynydd

v. Mesurau i sicrhau mwy o swyddi lle mae’r Gymraeg yn hanfodol a chynllunio'r gweithlu'n llawer iawn yn well

vi. Mesurau i amddiffyn a hybu gweithredu mewnol uniaith Gymraeg a gofodau eraill uniaith Gymraeg

vii. Dyletswydd i enwi adeiladau, tai, lleoedd a strydoedd yn Gymraeg mewn datblygiadau, ynghyd â diogelu enwau Cymraeg sy'n bodoli eisoes

## 5.Atebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

| Cwestiwn | Ateb (a sylwadau ategol) |
|---|---|
| **Cwestiwn 1 – Ym mharagraffau 49–54, rydym wedi amlinellu'r rôl yr ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i hybu'r Gymraeg, h.y. swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?** | **Anghytuno.**<br>Ni ddylai'r Llywodraeth fod yn gyfrifol am osod Safonau. Mae profiad blaenorol yn dangos bod gweision sifil yn ffafrio gwanhau'r Safonau er mwyn plesio cyrff, yn hytrach na chanolbwyntio ar amddiffyn hawliau iaith. Nid ydym yn ymddiried ynddynt i gymryd cyfrifoldebau pellach.<br>Ni ddylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg. |
| **Cwestiwn 2 – Yn Nhabl 1, rydym wedi amlinellu'r adnoddau mewn perthynas â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg yr ydym o'r farn y dylent fod ar gael i unrhyw gorff neu gyrff sy'n helpu yn y gwaith o hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?** | **Anghytuno**, dylai fod mwy o adnoddau, ac anghytunwn yn gryf gyda'r cynnig i ddiddymu Comisiynydd y Gymraeg am y rhesymau a amlinellir uchod.<br><br>Nodwn y bu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2011-12 grant o £13.7 miliwn y flwyddyn[16], gyda £4.4 miliwn ar gyfer costau cynnal y sefydliad a chyfrifoldeb dros grantiau penodol gwerth £9 miliwn[17].<br><br>Awgrymir yn y papur gwyn darparu £7.75 miliwn ar gyfer corff arfaethedig a fyddai'n cyfuno'r cyfrifoldebau hyn.<br><br>Mae'r Llywodraeth felly yn cynnig bron i £6 miliwn yn llai i'r corff newydd mewn termau arian parod nag oedd gan Fwrdd yr Iaith.<br><br>Hyd yn oed pe bai'r Llywodraeth ddim ond i adfer y gyllideb i lefelau oedd gan Fwrdd yr Iaith yn 2011-12, byddai modd parhau i wario dros £3 miliwn y flwyddyn ar Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â chlustnodi £1.4 miliwn ar gyfer corff hybu ar ychwanegol ar wahân. |
| **Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 4), sef un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?**<br><br>**Os ydych yn anghytuno, nodwch pa opsiwn (gan gynnwys opsiynau nad ydym wedi'u trafod yn y Papur Gwyn) y dylem ei ystyried yn eich barn chi.** | **Anghytuno.**<br>Anghytunwn yn gryf gydag opsiwn 4 gan ei fod yn cynnig diddymu Comisiynydd y Gymraeg gan droi'r cloc yn ôl i ddyddiau Bwrdd yr Iaith – corff a fethodd amddiffyn hawliau pobl i'r Gymraeg yn effeithiol am nifer o resymau.<br><br>**Cefnogwn opsiwn sy'n debyg iawn i opsiwn 3 yn lle**, sef corff hyrwyddo ar wahân i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Ond nid ydym yn cytuno gyda rhoi grymoedd i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y Safonau a'u gosod.  Nid ydym yn cytuno gyda chreu |

[16] http://gov.wales/docs/drah/publications/20110414remitlettertoWLB2011cym.pdf

[17] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s3234/CELG4-06-11%20p2.pdf

| | |
|---|---|
| | 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' ychwaith. |
| **Cwestiwn 4 – Rydym wedi seilio ein dewis, sef un corff, ar sail eglurder, cydnawsedd a gwerth am arian. A ydych chi'n cytuno â'n sail resymegol?** | **Anghytuno.** |
| **Cwestiwn 5 – Pa faterion perthnasol eraill y dylem eu hystyried wrth wneud ein cynnig terfynol ynghylch pa gorff neu gyrff ddylai hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?** | **Anghytunwn gyda chyfuno rheoleiddio a hybu o fewn un corff.**<br>Mae problemau gwrthdaro difrifol rhwng y ddwy swyddogaeth, a byddai eu cyfuno dan un to yn gwanhau rheoleiddio ac yn rhwystr rhag hybu'r iaith yn effeithiol.<br>Credwn mai 'lles defnyddwyr y Gymraeg' ac 'eglurder i'r cyhoedd' yw'r meini prawf pwysicaf o ran ystyried newid.<br>Dylid ystyried y ffaith mai dim ond pytiau o dystiolaeth anghyflawn, ar sail ychydig fisoedd o brofiad gyda Safonau dan oruchwyliaeth Gomisiynydd y Gymraeg, yr ydych wedi eu defnyddio yn y papur gwyn.<br>Mae'r papur yn cynnig creu 'siop un stop' ar gyfer cyrff, ond o safbwynt y cyhoedd mae'r cynigion yn mynd i arwain at gannoedd o bwyntiau cyswllt i achwynwyr sy'n anfodlon gyda gwasanaethau Cymraeg, yn hytrach nag un pwynt cyswllt. Petaech yn defnyddio'r un rhesymeg ar gyfer cwynion, dim ond un corff ddylai fod yn delio â chwynion y cyhoedd, sef Comisiynydd y Gymraeg. |
| **Cwestiwn 6 – A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar Ran 1 y Papur Gwyn?** | Ni ddylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg am y rhesymau a nodir uchod. |
| **Cwestiwn 7 – Ym mharagraffau 93–95, rydym wedi nodi rhai gofynion cyffredinol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff. Beth yw eich barn chi am y gofynion cyffredinol hyn, ac a oes yna fesurau monitro a ffrwyno eraill a ddylai fod yn weithredol ar y corff arfaethedig?** | **Anghytunwn** gyda'r cynigion sy'n anobeithiol am nad oes consensws na thystiolaeth o'u plaid.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cadw Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, ac mae newydd sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, felly dylid cadw Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Methodd Bwrdd yr Iaith a does dim diben troi'r cloc yn ôl i'r un model. |
| **Cwestiwn 8 – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 3), sef i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?** | **Anghytuno.** Dylai Comisiynydd y Gymraeg barhau i fod yn gyfrifol am lunio, ymgynghori, gosod, monitro a gorfodi cydymffurfio â'r Safonau. |
| **Cwestiwn 9 – Beth yw eich barn chi am y dadansoddiad rydym wedi'i ddarparu sy'n cefnogi ein dewis ni, sef Opsiwn 3? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem eu hystyried wrth wneud unrhyw gynnig terfynol?** | **Anghytunwn,** gan fod profiad ugain mlynedd Bwrdd yr Iaith yn dangos nad yw cyfuno swyddogaethau rheoleiddio a hybu'r iaith o fewn yr un corff yn gweithio. Nid oes galw am y newid rydych yn ei gynnig na thystiolaeth ddomestig na rhyngwladol i'w gyfiawnhau. |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 10 – A ydych chi'n credu bod Opsiwn 3 yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig yn ddigonol yng nghyd-destun arfer swyddogaethau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?** | **Nac ydyn.**<br><br>Credwn y dylid cadw Comisiynydd y Gymraeg a chryfhau ei hannibyniaeth a'i phwerau drwy ei phenodi a'i hariannu drwy'r Cynulliad yn hytrach na'r Llywodraeth.<br>Ni ddylai'r Llywodraeth benodi prif swyddogion y cyrff hyn ychwaith.<br>Credwn fod nifer o gynigion gwael yn y papur fyddai'n canoli grym o fewn y Llywodraeth, sydd heb yr arbenigedd i wneud y gwaith o lunio a gosod y Safonau'n iawn. |
| **Cwestiwn 11 – A oes unrhyw faterion ychwanegol i'r rhai a restrir ym mharagraffau 121–122 y dylem eu hystyried wrth ystyried trefniadau i sefydlu'r Comisiwn arfaethedig?** | Dylid ystyried profiad cyfnod Bwrdd yr Iaith a'r ffaith i'r Llywodraeth Lafur flaenorol weithredu yn gwbl groes i'r cynigion hyn drwy drosglwyddo staff i'r Llywodraeth - bum mlynedd yn ôl trosglwyddwyd yr union un staff o'r bwrdd i'r Llywodraeth.<br><br>Mae'r cynigion hyn yn amlygu'r ffaith mai newid biwrocrataidd sy'n gyfystyr â symud y cadeiriau ar y Titanic sydd dan sylw yn y papur gwyn fel y'i drafftiwyd. |
| **Cwestiwn 12 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i symud y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Bil y Gymraeg newydd?** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**<br>Nid ydym yn gweld mantais o symud y gofyniad, ac mae'n edrych fel cynnig di-weledigaeth sy'n cynnig newid er mwyn newid.<br>Nid oes esboniad go iawn yn y papur gwyn o sut y byddai hyn yn gwella hawliau i'r Gymraeg na'i defnydd. |
| **Cwestiwn 13 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad ar strategaeth y Gymraeg bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?** | **Anghytuno.**<br>Dylai fod mwy, nid llai, o graffu ar waith y Llywodraeth. Felly, dylid cadw dyletswydd i adrodd yn flynyddol. Dyma gynnig, unwaith eto, er lles biwrocratiaid yn lle cynnig er lles siaradwyr y Gymraeg. |
| **Cwestiwn 14 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun yn nodi sut y bydd yn gweithredu'r strategaeth bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?** | **Anghytuno.** |
| **Cwestiwn 15 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg?** | **Anghytuno**<br>Ni ddylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg.<br>Dylid sefydlu corff hyrwyddo ar wahân.<br>Dim ond os sefydlir corff hyrwyddo ar wahân i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Llywodraeth y dylid dileu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. |
| **Cwestiwn 16 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar Ran 2 y Papur Gwyn?** | Mae'r rhan hon o'r papur yn amlygu diffyg dealltwriaeth a diffyg sail tystiolaeth tu ôl i gynigion y papur gwyn. Yn benodol, mae'n amlygu anwybodaeth lwyr yr awduron o'r profiad |

| | |
|---|---|
| | 20 mlynedd o Fwrdd yr Iaith a methiannau difrifol y system honno. |
| **Cwestiwn 17 – Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu model diwygiedig o'r Safonau (Opsiwn 2) fel y ffordd orau o sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?** | **Anghytuno**<br>Rydym yn cefnogi cadw'r Safonau ynghyd â dilyn opsiwn tebyg i opsiwn 5, sef nodi hawliau cyffredinol ar wyneb y Bil.<br>Dylid cadw'r Safonau ac adeiladu arnynt drwy sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y Mesur er mwyn llywio'r Safonau, llenwi mannau gwan a chaniatáu iddynt ddatblygu dros amser.<br>Anghytunwn yn gryf gyda'ch cynigion i wanhau'r Safonau, yn enwedig y cynigion i (i) beidio gorfodi cyrff i *'gyfieithu dogfennau corfforaethol a thechnegol'* a (ii) *'rhoi mwy o gyfle i'r cyrff ddefnyddio eu crebwyll yn rhesymol o safbwynt Safonau penodol'*.<br>Nid ydym yn credu mewn rheoleiddio ysgafn neo-ryddfrydol fel y cynigir gennych – mae diffyg defnydd y Gymraeg yn gysylltiedig â diffyg rheoleiddio. Dylai fod mwy o reoleiddio cadarn, nid llai. |
| **Cwestiwn 18 – Rydym wedi seilio'r cynnig rydym yn ei ffafrio i ddiwygio'r Safonau (Opsiwn 2) ar sail yr eglurder, y capasiti ar gyfer gwella a'r costau newid sy'n gysylltiedig â phob opsiwn (paragraffau 163–165). A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad?** | **Anghytuno**.<br>Mae'n rhaid i les, profiad a buddiannau defnyddwyr y Gymraeg fod wrth wraidd y cynigion. Mae sefydlu hawliau cyffredinol ar wyneb y ddeddfwriaeth yn ogystal â chadw'r Safonau yn cynnig yr opsiwn gorau o ran gwella defnydd y Gymraeg ac amddiffyn ac ehangu hawliau i'r iaith. |
| **Cwestiwn 19 – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r dosbarthiadau presennol o Safonau, a gwahaniaethu rhwng 'Safonau' (a fyddai'n berthnasol i wasanaethau) a 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' (a fyddai'n berthnasol i ddyletswyddau corfforaethol)?** | **Anghytuno.**<br>Byddai hyn yn gam yn ôl gan leihau'r pwerau gorfodi a rheoleiddio gan arwain at lai fyth o gydymffurfiaeth â'r Safonau. Yn lle diddymu'r Safonau Gweithredu a Llunio Polisi a chreu haen ychwanegol o reoliadau yn eu lle,  gall fod dyletswyddau ychwanegol ar wyneb y Bil, megis dyletswyddau i symud at weinyddiaeth fewnol Gymraeg fel sy'n bodoli yng Nghatalonia a Gwlad y Basg. |
| **Cwestiwn 20 – A ydych chi o'r farn y dylid cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?** | **Nac ydw.**<br>Gan na fydd unrhyw bwerau gorfodi ynghlwm â'r dyletswyddau ychwanegol hyn, nid ydym yn gweld dim mantais o'i greu. Credwn ei fod yn enghraifft arall o newid er mwyn newid. Wedi dweud hynny, gwelwn fantais o sicrhau bod rheoleiddiwr annibynnol gyda rôl benodol i chwarae ym maes addysg. Byddai creu hawl gyffredinol i addysg a gofal cyfrwng Cymraeg yn ffordd well ymlaen. |
| **Cwestiwn 21 – Oes yna unrhyw faterion eraill y dylid, yn eich barn chi, eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?** | Ni ddylid creu'r haen ychwanegol hon o fiwrocratiaeth. |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 22 – A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn arfaethedig bwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i sut mae cyrff yn cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg, a fyddai'n cynnwys y Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol?** | **Anghytuno**<br>Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg y pwerau hyn eisoes – nid ydym yn gweld diben newid er mwyn newid. |
| **Cwestiwn 23 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol, yn hytrach na'u gorfodi?** | **Anghytuno.**<br>Ni fydd newid ymddygiad gwirioneddol a pharhaol heb bwerau gorfodi. |
| **Cwestiwn 24 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi cyfrifoldeb am osod Safonau ar gyrff i Lywodraeth Cymru, p'un ai drwy hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall?** | **Anghytuno.**<br>Byddai hyn yn gam mawr yn ôl, gan wanhau'r Safonau.<br>Dylai'r Comisiynydd barhau i fod yn gyfrifol am osod Safonau, nid y Llywodraeth.<br>Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth gan academydd, sylwebydd neu fudiad sy'n wybodus ym maes polisi iaith sy'n ffafrio'r cynnig hwn. |
| **Cwestiwn 25 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai pob un o'r rheoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad?** | **Anghytuno**<br>Credwn y dylai fod un ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir gan Gomisiynydd y Gymraeg, nid Llywodraeth Cymru, ar bob un set o Safonau. |
| **Cwestiwn 26 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Ymchwiliadau Safonau?** | **Anghytuno**<br>Credwn y dylai fod un ymgynghoriad cyhoeddus gan Gomisiynydd y Gymraeg, nid Llywodraeth Cymru,  ar bob un set o Safonau. |
| **Cwestiwn 27 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi pwerau i gyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â'r Safonau i Lywodraeth Cymru?** | **Anghytuno.**<br>Nid oes gan weision sifil y profiad na'r arbenigedd i wneud y gwaith. Diffyg adnoddau oherwydd toriadau i Gomisiynydd y Gymraeg yw'r prif reswm nad ydynt wedi eu llunio hyd yn hyn.<br>Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth gan academydd, sylwebydd neu fudiad sy'n wybodus ym maes polisi iaith sy'n ffafrio'r cynnig hwn. |
| **Cwestiwn 28 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i osod Safonau ar yr holl gyrff mewn sector yn uniongyrchol drwy reoliadau, heb fod angen hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall gyffelyb?** | **Anghytuno**<br>Comisiynydd y Gymraeg, nid Llywodraeth Cymru, ddylai fod â'r pŵer hwnnw. |

| | |
|---|---|
| **Sylwadau ategol, gan gynnwys eich barn ar y materion y dylem eu hystyried wrth lunio Safonau i'w gosod yn uniongyrchol ar gyrff o fewn sector, p'un a ddylai cyrff unigol barhau â'r hawl i herio Safon sydd wedi'i gosod arnynt, a ph'un a ddylid cael proses ymgynghori fwy trwyadl.** | Dylai fod grym gan Gomisiynydd y Gymraeg, corff sydd â'r arbenigedd i allu gwneud y gwaith, i allu gosod Safonau yn uniongyrchol ar yr holl gyrff mewn sector. Ni ddylai fod hawl gan gyrff i herio penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg o ran defnyddio'r grym hwnnw oni bai bod yr un hawliau herio gan y cyhoedd. |
| **Cwestiwn 29 – Pa ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth neu pa weithdrefn y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod y broses o osod Safonau ar Lywodraeth Cymru yn deg a thryloyw?** | Cysondeb y broses â chyrff eraill – mae'n rheswm arall y dylid dilyn yr un broses sy'n bodoli nawr ar gyfer pob corff arall, sef Comisiynydd y Gymraeg yn gosod Safonau ar gyrff.<br>Mae'r cynnig hwn yn amlygu ffolineb rhoi'r cyfrifoldeb o osod Safonau ar gyrff i Lywodraeth Cymru yn lle rheoleiddiwr annibynnol, sef Comisiynydd y Gymraeg. |
| **Cwestiwn 30 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gorfod delio â chwynion drwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol cyn y caiff y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg, ymchwilio i fethiant honedig?** | **Anghytuno.**<br>Dylid parhau â'r system gwyno bresennol sy'n golygu bod pobl yn gallu troi at un corff, Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn datrys cwyn. Mae hynny llawer yn fwy eglur i'r cyhoedd. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at fwy o achosion ble mae cyrff yn gweithredu'n groes i'r Safonau, achos bydd camau gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn llai tebygol. Mae profiad Bwrdd yr Iaith yn dangos hynny.<br>Mae'n warthus bod y Llywodraeth yn cynnig hyn, dyma ymdrech amlwg i rymuso sefydliadau ar draul grym pobl gyffredin sydd am ddefnyddio'r Gymraeg. |
| **Cwestiwn 31 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig fod yn rhaid i gyrff gadw at weithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo, fel y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol?** | **Anghytuno.**<br>Ni ddylid gorfod cwyno i'r corff yn gyntaf. Dylid parhau i allu cwyno'n syth at y Comisiynydd. Mae gorfodi gweithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo, fel y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol, yn debygol o wneud y broses cwyno yn hirach ac yn fwy cymhleth nag y mae nawr. |
| **Cwestiwn 32 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond os yw o'r farn fod yr achos honedig o dorri Safon neu weithdrefn gwyno yn un ddifrifol y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael cymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â chŵyn?**<br>**Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar ein diffiniad o 'achos difrifol' ym mharagraff 219.** | **Anghytuno.**<br>Dylid parhau â'r system gwyno bresennol sy'n golygu bod ymchwiliad i'r rhan fwyaf o gwynion dilys. Dilysrwydd y gwyn ddylai fod yr unig ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio. Mae hynny'n llawer mwy tebygol o sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.<br>Bydd y cynnig hwn yn arwain at lai o gydymffurfiaeth â'r Safonau achos bydd camau gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn llai tebygol. Mae profiad Bwrdd yr Iaith yn dangos bod caniatáu i gorff beidio ag ymchwilio oni bai ei fod yn 'achos difrifol' yn dangos hynny. |

| | |
|---|---|
| | Mae'n warthus bod y Llywodraeth yn cynnig hyn, dyma ymdrech amlwg i rymuso sefydliadau ar draul grym pobl gyffredin sydd am ddefnyddio'r Gymraeg.<br>Credwn y dylid defnyddio ffordd arall o gyflymu'r broses o ddelio â chwynion drwy roi'r hyblygrwydd i'r Comisiynydd leihau'r amser a nifer o gamau yn ystod proses ymchwilio lle nad oes anghytuno rhwng y partïon ynghylch ffeithiau'r achos. |
| **Cwestiwn 33 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ganiatáu i'r Comisiwn arfaethedig gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun?** | **Anghytuno**<br><br>Dylid parhau â'r system gwyno bresennol sy'n golygu bod y grym gan y Comisiynydd i allu cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun. |
| **Cwestiwn 34 – A ydych chi'n cytuno fod y camau gweithredu a ddisgrifir ym mharagraff 225 yn darparu amrywiaeth effeithiol o gamau gorfodi?** | **Anghytuno.**<br>Nid ydym yn gweld yr opsiynau hyn yn well na'r hyn sy'n bodoli yn barod.<br>Nid yw £5,000 yn ddigon uchel fel dirwy sifil ar gyfer nifer o achosion a'r cyrff cyfoethocaf – ni ddylai fod terfyn ar y swm y gallai Comisiynydd y Gymraeg osod fel dirwy sifil ar gyrff. |
| **Cwestiwn 35 – Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bwerau i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid cadw'r pwerau hyn?**<br><br>**Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw sylwadau ynghylch y ddirwy sifil uchaf y dylai'r Comisiwn arfaethedig allu ei gosod (os o gwbl).** | **Cytuno**, ond anghytunwn gyda'ch cynnig i ddiddymu Comisiynydd y Gymraeg<br><br>Nid yw £5,000 yn ddigon uchel fel dirwy sifil ar gyfer nifer o achosion nag ar gyfer cyrff cyfoethog felly ni ddylai fod terfyn ar y swm y gallai Comisiynydd y Gymraeg osod fel dirwy sifil ar gyrff. |
| **Cwestiwn 36 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**<br>Nid ydym yn cytuno gyda diddymu Comisiynydd y Gymraeg.<br>Dylai fod gan y cyhoedd yr un hawliau i apelio at y Tribiwnlys â chyrff.<br>Dylai'r Tribiwnlys fod â swyddogaeth ychwanegol o ddehongli'r hawliau cyffredinol ar wyneb y Bil a sicrhau cydymffurfiaeth â nhw. Yn ogystal â'i bwerau presennol, dylai fod hawl gan y Tribiwnlys i ddiwygio'r Safonau er mwyn sicrhau bod y Safonau yn esblygu dros amser, adlewyrchu'r hawliau cyffredinol ac er mwyn llenwi mannau gwan yn y rheoliadau. |
| **Cwestiwn 37 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**<br>Nid y Llywodraeth y dylai fod yn gosod Safonau ar gyrff, ond Comisiynydd y Gymraeg.<br>Dylai fod gan y cyhoedd yr un hawliau i apelio at y Tribiwnlys â chyrff. |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 38 – Rydyn ni'n cynnig cyflwyno cam cyntaf gorfodol ar gyfer y Tribiwnlys mewn perthynas ag apelau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi Safonau. Byddai'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys roi caniatâd ar y sail bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu pan fo rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?** | **Anghytuno.**<br>Mae'r rheolau'r Tribiwnlys eisoes yn gwneud hyn yn ofyniad (gweler rheol 16, Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015), nid ydym yn gweld y byddai newid y ddeddfwriaeth gynradd yn gwneud unrhyw wahaniaeth felly. |
| **Cwestiwn 39 – A ydych chi o'r farn y dylai'r cam cyntaf gorfodol arfaethedig fod yn gymwys i apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?** | **Ddim yn gwybod.**<br><br>Mae'r rheolau'r Tribiwnlys eisoes yn gwneud hyn yn ofyniad (gweler rheol 16, Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015). |
| **Cwestiwn 40 – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 3 y Papur Gwyn?** | Oes. Diben y Mesur yw amddiffyn ac ymestyn hawliau pobl i'r Gymraeg. Felly, diben y system gwyno yw gwasanaethau pobl, nid cyrff. Mae pobl yn gyndyn o gwyno, yn enwedig yn Gymraeg ac am y Gymraeg, felly dylid gwneud y broses mor rhwydd a hygyrch i'r cyhoedd â phosibl. Mae'r cynigion yn y papur gwyn yn mynd i'r cyfeiriad cwbl anghywir gan eu bod wedi colli ffocws ar ddiben deddfwriaeth iaith. |
| **Cwestiwn 41 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r cyfyngiadau yn y Mesur fel bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pŵer i wneud Safonau'n gymwys i unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?** | Dylid ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd:<br>• gan enwi ar wyneb y Mesur banciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr<br>• sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ddod â holl gyrff y sector breifat o fewn y gyfundrefn Safonau<br><br>Ni ddylid dileu'r rhestr o gategorïau cyrff ar wyneb y Mesur y gellid eu cynnwys dan y gyfundrefn Safonau gan ei fod yn cynnig sicrwydd di-amau ynghylch cymhwysedd y Cynulliad i basio Safonau.<br><br>Dylai Comisiynydd y Gymraeg barhau â'r cyfrifoldeb o gychwyn y broses o osod Safonau ar gyrff, ni ddylid rhoi'r swyddogaeth i Lywodraeth Cymru. |
| **Cwestiwn 42 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi i'w cwsmeriaid y dylai busnesau yn y sector preifat fod yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau?** | **Anghytuno** |

| | |
|---|---|
| **Sylwadau ategol, gan gynnwys eich barn ynghylch unrhyw gyfyngiadau y dylid eu rhoi ar y pwerau i osod Safonau ar fusnesau preifat.** | Mae'n bwysig bod modd gosod pob math o Safon ar y sector breifat, ni ddylai fod unrhyw gyfyngiad ar rym Comisiynydd y Gymraeg i osod Safonau ar gyrff o fewn y sector. |
| **Cwestiwn 43 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond fel rhan o becyn ehangach o weithgarwch sy'n hybu'r Gymraeg ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ohoni y dylid gosod Safonau ar fusnesau preifat?** | **Anghytuno**<br>Eto, mae'r cynnig yn anwybyddu hanes a phrofiad 20 mlynedd ble'r oedd Bwrdd yr Iaith yn ceisio hybu'r Gymraeg ymysg busnesau. Nid diffyg hybu sydd wrth wraidd y ffaith nad yw'r un banc yn darparu bancio ar-lein yn Gymraeg, ond diffyg deddfu a rheoleiddio cadarn. |
| **Cwestiwn 44 – Os rhoddir pwerau i Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd y Cynulliad, a ydych chi o'r farn y dylai Safonau gael eu gosod ar unrhyw gorff neu sector nad yw ar hyn o bryd o fewn cwmpas deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg?** | **Ydw**<br>Dylid ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd:<br>• gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr<br>• sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ddod â holl gyrff y sector breifat o fewn y gyfundrefn Safonau<br>Dylid ystyried cynnwys darlledwyr yn y gyfundrefn Safonau yn ogystal. |
| **Cwestiwn 45 – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 4 y Papur Gwyn?** | Oes, mae'r cynigion yn yr adran hon yn dwyllodrus ac yn gamarweiniol.<br>Rydych chi'n ceisio rhoi'r argraff bod y newidiadau arfaethedig yn gam ymlaen o ran dod â gweddill y sector breifat o dan Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'r cynigion yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd rhagor o gwmnïau yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn. |
| **Cwestiwn 46 – Rydym wedi asesu effaith ein cynigion ar gydraddoldeb, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r Gymraeg. A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw un o'r asesiadau hyn?** | Bydd y newidiadau arfaethedig i'r system gwyno yn gwneud y broses yn llai eglur i grwpiau llai pwerus a mwy bregus gan y bydd rhaid cwyno wrth gannoedd o gyrff unigol yn lle Comisiynydd y Gymraeg, sef y 'siop un stop' ar gyfer cwynion.<br><br>Yn ogystal, bydd gwneud ymchwiliadau'n llai tebygol yn arwain at fwy o dorri'r Safonau ac, o ganlyniad, llai o debygrwydd y bydd y grwpiau bregus hyn yn derbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd lleihau'r tebygrwydd y caiff ymchwiliad annibynnol ei gynnal gan y Comisiynydd yn golygu y bydd mwy o bobl, yn enwedig grwpiau bregus, yn colli ffydd yng ngallu'r system gwyno i sicrhau eu hawliau i'r Gymraeg.<br><br>Byddai'r cynigion felly yn gwanhau hawliau iaith, yn enwedig i grwpiau bregus a phobl ifanc sydd angen y broses fwyaf syml gyda chefnogaeth gref, annibynnol rheoleiddiwr pur annibynnol sef Comisiynydd y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| | Pe byddech yn diddymu Comisiynydd y Gymraeg a chyfuno rheoleiddio a hybu o fewn un corff, bydd gwrthdaro buddiannau yn golygu na fydd rheoleiddiwr yr un mor gryf gan y grwpiau bregus a llai pwerus hyn. |
| **Cwestiwn 47 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:**<br><br>**i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br>**ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**<br><br>**Pa effeithiau fyddai, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?** | Byddai diddymu'r Comisiynydd y Gymraeg, gwanhau'r Safonau, cymhlethu'r system gwyno, diddymu rhai Safonau, creu haen arall o fiwrocratiaeth, sef 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' yn gwneud ymchwiliadau i gwynion yn llai tebygol i gyd yn golygu mwy o gyrff yn darparu llai o wasanaethau yn Gymraeg neu wasanaethau Cymraeg eilradd i'r rhai Saesneg.<br><br>Byddai peidio â newid Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn lliniaru'r effeithiau negyddol hyn. Yn wir, byddai'n well i'r Gymraeg pe bai'r Llywodraeth yn rhoi'r gorau i'r broses hon o ddiwygio'r Mesur.<br><br>Byddai'n well rhoi'r papur gwyn hwn yn y bin a dechrau. Yn lle mabwysiadu eich cynigion, rydym yn credu y dylai'r Llywodraeth:<br>• Cryfhau Safonau'r Gymraeg drwy greu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y ddeddf<br>• Cynnwys gweddill y sector breifat yn y ddeddfwriaeth<br>• Cryfhau pwerau ac annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a sefydlu corff ar wahân i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg<br><br>Yn ogystal, byddai dileu rhai mathau o Safonau yn gam mawr yn ôl o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, megis yn y gweithle. |
| **Cwestiwn 48 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid yr opsiynau arfaethedig:**<br><br>i. **fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**<br>ii. **fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Byddai estyn y ddeddfwriaeth i'r holl sector breifat yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn sylweddol, mewn mwy o sefyllfaoedd bob dydd megis mewn archfarchnad neu wrth fancio ar-lein neu mewn banc.<br><br>Byddai creu hawliau cyffredinol i'r Gymraeg ar wyneb y ddeddfwriaeth yn cryfhau'r Safonau gan greu mwy o gyd-destunau lle mae'r hawl i'w defnyddio.<br><br>Byddai cadw'r system gwyno bresennol yn golygu mwy o reoleiddio a mwy o gydymffurfiaeth gyda'r Safonau ac felly yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Byddai peidio mabwysiadau cynigion i (i) beidio gorfodi cyrff i *'gyfieithu dogfennau* |

| | |
|---|---|
| | *corfforaethol a thechnegol'* na (ii) *'rhoi mwy o gyfle i'r cyrff ddefnyddio eu crebwyll yn rhesymol o safbwynt Safonau penodol'* yn golygu nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Cwestiwn 49 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.** | Oes, rhowch y papur gwyn hwn yn y bin a dechreuwch eto.<br><br>Yn lle mabwysiadu eich cynigion, rydym yn credu y dylai'r Llywodraeth:<br>• Cryfhau Safonau'r Gymraeg drwy greu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y ddeddf i gyd-fynd â'r Safonau;<br>• Sicrhau proses gadarn ac amserlen ar gyfer cynnwys gweddill y sector breifat dan y gyfundrefn Safonau<br>• Cryfhau pwerau ac annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a sefydlu corff ar wahân i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg |

Grŵp Hawl

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Hydref 2017